



Mae'r ddogfen hon ar gael
yn y Gymraeg a'r Saesneg

Fframwaith Micro-gymwysterau ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon

Medi 2026

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cynnwys

1. Rhagarweiniad a chyd-destun	3
1.1 Y cyd-destun rheoleiddio yng Nghymru	4
1.2 Y cyd-destun rheoleiddio yng Ngogledd Iwerddon	5
1.3 Cyd-destunau rheoleiddio ehangach y DU	5
2. Diffiniad ac argymhellion cyffredinol	6
3. Arferion Allweddol	8
3.1 Ymagwedd strategol at ymdrin ag ansawdd a safonau	9
3.2 Ymgysylltiad dysgwyr	11
3.3 Adnoddau ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel	14
3.4 Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd micro-gymwysterau	16
3.5 Monitro, gwerthuso a gwella darpariaeth micro-gymwysterau	18
3.6 Adolygiad ac achrediad allanol	20
3.7 Dylunio, datblygu a chymeradwyo micro-gymwysterau	21
3.8 Partneriaethau â sefydliadau eraill	28
3.9 Recriwtio, dethol a derbyn dysgwyr	29
3.10 Cynorthwyo dysgwyr micro-gymwysterau i gyflawni	32
3.11 Addysgu, dysgu ac asesu	34
3.12 Prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau	38
4. Ymgysylltiad â chyflogwyr a micro-gymwysterau ar gyfer datblygu'r gweithlu	40
5. Gwireddu potensial micro-gymwysterau	41
6. Rhestr termau	42
7. Acronymau/talfyriadau	46
8. Dolenni i adnoddau defnyddiol	47
9. Cydnabyddiaeth	48

1. Rhagarweiniad a chyd-destun

Diben y Fframwaith hwn yw diffinio'n glir beth yw micro-gymwysterau ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ynghyd â darparu egwyddorion ac arferion allweddol ar gyfer darpariaeth micro-gymwysterau o ansawdd uchel, waeth beth fo'u lefel, eu pwnc neu'r corff cyflwyno/dyfarnu.

Nid yw'r Fframwaith hwn yn ddogfen reoleiddiol. Anogir darparwyr addysg drydyddol ledled Cymru a Gogledd Iwerddon i ystyried y Fframwaith hwn fel teclyn gwerthfawr i gynorthwyo â datblygu a chyflwyno micro-gymwysterau a phrofiad dysgwr o ansawdd uchel.

Mae'r Fframwaith hwn wedi'i gynllunio ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Diffinnir addysg drydyddol fel addysg ôl-16 a gydnabyddir yn ffurfiol; mae hyn yn cynnwys darpariaeth o Lefel 1 i 8 a all gael ei chyflwyno gan golegau addysg bellach, prifysgolion, colegau prifysgol a darparwyr hyfforddiant. Gyda chyfleoedd ar gyfer amrywiad eang o ran lefel, pwnc a maint, mae gan micro-gymwysterau botensial enfawr i alluogi mynediad hyblyg i addysg drydyddol ac mae ganddynt rôl bwysig mewn uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu. O ystyried cwmpas eang micro-gymwysterau a diffyg terminoleg ac iaith gyson ledled Ewrop a'r DU, mae rhywfaint o ddryswch a diffyg dealltwriaeth ynghylch micro-gymwysterau ymhlith darparwyr, cyflogwyr a dysgwyr.

Mae'r Fframwaith hwn yn diffinio'n glir beth yw micro-gymwysterau ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ynghyd â darparu arferion allweddol ar gyfer darpariaeth micro-gymwysterau o ansawdd uchel, waeth beth fo'u lefel, eu pwnc neu'r corff cyflwyno/dyfarnu.

Mae'r arfer da a gyflwynir yn y Fframwaith hwn wedi deillio o gydweithio traws-wladol, trwy'r [Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau a hwylusir gan QAA](#). Defnyddir y term 'dylai' trwy gydol y Fframwaith hwn. Mewn rhai achosion, gellir defnyddio 'rhaid' yn hytrach na 'dylai' pan fo'n ofynnol i'r darparydd wneud rhywbeth sydd wedi'i gynnwys mewn canllawiau statudol a rheoleiddiol, ond gall hyn amrywio yn dibynnu ar y wlad dan sylw a'r rheoleiddiwr perthnasol. Fel arall mae 'dylai' yn dynodi arfer da a argymhellir yn hytrach na gofyniad, ac mae darparwyr yn cadw disgrisiwn dros sut mae'n cael ei weithredu yn eu cyd-destun eu hunain. Nid yw'r Fframwaith yn ganllaw rheoleiddiol; fodd bynnag, gall adolygwyr/aseswyr allanol ddefnyddio'r Fframwaith fel cyfeirbwynt ar gyfer archwilio ymagwedd darparydd at ansawdd a safonau ei ddarpariaeth micro-gymwysterau.

Gwahoddwyd pob darparydd trydyddol rheoleiddiedig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon i gymryd rhan yn ei greu, a darperir rhestr o gyfranwyr yn Adran 9. Yn ogystal, mae cynnwys y Fframwaith hwn yn seiliedig ar bolisi ac arfer micro-gymwysterau ledled y DU ac yn rhwngwladol.

- Nid yw'r Fframwaith yn ganllaw rheoleiddio
- 'Dylai' yn dynodi arfer da a argymhellir yn hytrach na gofyniad, ac mae darparwyr yn cadw disgrisiwn dros sut mae'n cael ei weithredu yn eu cyd-destun eu hunain.

1.1 Y cyd-destun rheoleiddio yng Nghymru

Yng Nghymru bu cefnogaeth barhaus i archwilio a datblygu micro-gymwysterau ers 2021. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-23, cynhaliodd QAA Cymru brosiect gwelliant i archwilio [arfer micro-gymwysterau yn y sector trydyddol ledled Cymru](#).

Mewn ymateb i'r diddordeb cynyddol mewn micro-gymwysterau, trefnodd QAA Cymru Rwydwaith Addysg Drydyddol ar gyfer Micro-gymwysterau ar draws y sector – y Grŵp Diddordeb Arbennig Micro-gymwysterau (MIC.SIG). Ffurfiwyd MIC.SIG yn 2023-24 wedi'i ariannu gan Medr, y Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru. Mae trafodaethau o fewn y rwydwaith yn dangos bod anghysondeb sylweddol o hyd yn yr iaith a ddefnyddir, y ffordd y datblygir micro-gymwysterau a'r wybodaeth a rennir â dysgwyr a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys lefel, sgôr credyd a dull astudio, er enghraifft.

Fel rheoleiddiwr addysg drydyddol yng Nghymru, [mae Medr wedi ymrwymo i gefnogi dysgu gydol oes](#) ac yn awyddus i'r sector addysg drydyddol allu cynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu huchelgeisiau addysg a hyfforddiant, beth bynnag fo'u lefel a'u cymhwyster, mewn lleoliad sy'n addas iddynt, pryd bynnag y byddant yn penderfynu cychwyn ar eu taith. Mae Cynllun Strategol Medr yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer datblygu a chyflwyno micro-gymwysterau; Nod Strategol 2 yw 'Creu system drydyddol hyblyg a chyd-gysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.' Mae gan ficro-gymwysterau'r potensial i gynorthwyo â chaffael y sgiliau a'r wybodaeth ar draws y system drydyddol sydd eu hangen ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid.

Caiff addysg bellach a dysgu yn y gweithle yng Nghymru eu harolygu gan Estyn, â ffocws cryf ar 'ansawdd ac effeithiolrwydd addysgu a dysgu.'¹ Yng Nghymru, mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd AU Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch (AU) fodloni egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector o Gôd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch 2024 (Côd Ansawdd y DU), ynghyd â Datganiadau Nodweddion a Datganiadau Meincnod Pwnc, lle bo'n briodol.

Mae [Deddf yr Iaith Gymraeg ac Addysg \(Cymru\) 2025](#) yn cyfrannu at y nod o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 trwy roi mesurau ar waith sy'n anelu at sicrhau bod pob disgybl yn gallu defnyddio'r iaith yn annibynnol, o leiaf erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol orfodol. Ynghyd â dyletswydd ar Medr, fel y nodir yn [Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\) 2022](#), er mwyn annog y ddarpariaeth o addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n debygol y bydd cynnydd yn y galw am ddarpariaeth drydyddol hyblyg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a all gynnwys micro-gymwysterau.

Yn ogystal â chyflawni unrhyw ddyletswyddau neu ofynion penodol a nodir gan Medr, dylai darparwyr yng Nghymru hefyd sicrhau eu bod yn cyflawni dyletswyddau cyfredol a dyletswyddau'r dyfodol fel y nodir yn [Safonau'r Gymraeg](#). Mae'r Fframwaith hwn yr un mor berthnasol i ficro-gymwysterau a gyflwynir yn Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Dylid rhoi sylw i ystyriaethau'r Gymraeg a'r cyfle ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws pob agwedd ar ddylunio, datblygu, cyflwyno ac adolygu micro-gymwysterau yng Nghymru.

1.2 Y cyd-destun rheoleiddio yng Ngogledd Iwerddon

Yn dilyn eu strategaeth deng mlynedd ar gyfer twf: [Vision for a 10X Economy: A Decade of Innovation](#) a gyhoeddwyd yn 2021, mae Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon wedi nodi Swyddi Da, Cynyddu Cynhyrchiant, Cydbwysedd Rhanbarthol a Sero Net fel pedwar amcan blaenoriaeth yng [Ngweledigaeth Economaidd y Gweinidog](#). Cydnabyddir bod angen hyfforddiant, ailsgilio ac uwchsgilio er mwyn galluogi cyfranogiad yn y newidiadau sy'n cael eu gyrru gan arloesedd o fewn sectorau twf presennol a sectorau twf y dyfodol. Mae gan ficro-gymwysterau botensial i ffurfio rhan o'r hyfforddiant, yr ailsgilio a'r uwchsgilio sy'n ofynnol ledled Gogledd Iwerddon mewn meysydd sgiliau a nodwyd.

Mae addysg bellach a dysgu yn y gweithle yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu harolygu gan yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant i 'adeiladu capasiti o fewn y sefydliadau a arolygir er mwyn darparu addysg a deilliannau o ansawdd uchel i ddysgwyr.² Er nad oes fframwaith asesu ar gyfer AU wedi'i gytuno eto, disgwylir y bydd unrhyw asesiad ansawdd yn y dyfodol yn seiliedig ar ddisgwyliad y bydd darparwyr yn bodloni egwyddorion y Côd Ansawdd ac atgyfeiriadau cysylltiedig gan gynnwys Datganiadau Nodweddion.

Yn ogystal â chyflawni unrhyw ddyletswyddau neu ofynion penodol a nodir gan Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon, dylai darparwyr yng Ngogledd Iwerddon hefyd gyflawni unrhyw ddyletswyddau cyfredol neu ddyletswyddau yn y dyfodol a osodir gan Bwyllgor Gwaith Gogledd Iwerddon.

Mae'r Fframwaith wedi'i ddatblygu i sicrhau ei fod yn alinio â'r Datganiad Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau ac yn gyson ag argymhellion y Comisiwn Ewropeaidd a fabwysiadwyd gan [Gyngor yr UE](#) yn 2022. Yn hyn o beth, mae'r Fframwaith yn gydnaws â datblygu a chyflwyno micro-gymwysterau trawsffiniol ar draws Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.

1.3 Cyd-destunau rheoleiddio ehangach y DU

Yn ogystal â'r agweddau rheoleiddio uchod, dylai pob darparydd trydyddol gydymffurfio â'r holl gyfreithiau a chanllawiau perthnasol, gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan yr [Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd](#) sy'n gysylltiedig â chyfraith defnyddwyr statudol, Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r holl ofynion perthnasol newydd neu'r rhai sydd wedi'u diweddarau. Nid yw'r Fframwaith yn bwriadu disodli na dyblygu unrhyw ganllawiau statudol na rheoleiddiol.

2. Diffiniad ac argymhellion cyffredinol

Mae micro-gymwysterau yn gymwysterau bach sy'n dwyn credyd, ac sy'n seiliedig ar ddeilliannau. Er mwyn ennill micro-gymhwyster, caiff dysgwyr eu hasesu i ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu.

Mae'r diffiniad yn nodi bod yn rhaid i ficro-gymwysterau fod ag iddynt sgôr credyd.^a Mae hyn yn gyson â'r [diffiniad a gynigiwyd gan banel arbenigwyr UNESCO](#), yr oedd QAA yn aelod ohono, ac argymhellion y Comisiwn Ewropeaidd a fabwysiadwyd gan [Gyngor yr UE](#) a lywiodd [Ddatganiad Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau](#) QAA.

Rhagdybiaethau cyffredinol am ficro-gymwysterau

- Mae micro-gymwysterau yn dwyn credydau, a dylai fod iddynt o leiaf un credyd, a dim mwy na 40 credyd.
- Mae micro-gymwysterau yn seiliedig ar ddeilliannau, gyda chyflawniad dysgwyr o ganlyniadau micro-gymwysterau yn cael ei ddangos trwy asesiad addas.
- Mae micro-gymhwyster yn ddyfarniad annibynnol, ac nid yw'n gymhwyster ynddo'i hun ar [Fframweithiau Cymwysterau](#) AU.
- Mae micro-gymhwyster yn canolbwyntio ar ei faes dysgu
- Mae micro-gymwysterau yn caniatáu i ddysgwyr ddewis dyfarniadau sy'n addas i'w diddordebau personol a'u hanghenion cyflogaeth presennol neu yn y dyfodol yng nghyd-destun dysgu gydol oes.

^a Gelwir dyfarniadau bach eraill nad ydynt yn dwyn credydau yn ddarpariaeth cwrs byr Efallai y bydd darparwyr am gymhwyso'r egwyddorion arfer da a nodir yn y Fframwaith hwn i ddarpariaeth sy'n dwyn credydau a darpariaeth nad yw'n dwyn credydau er mwyn cynorthwyo â darpariaeth addysg drydyddol o ansawdd uchel.

Gan fod yn rhaid i ficro-gymwysterau fod yn dwyn credyd, gall y micro-gymwysterau lleiaf fod yn un credyd. Mae un credyd yn cyfateb i 10 awr o ddysgu tybiannol – gall hyn gynnwys dysgu dan gyfarwyddyd a dysgu dan arweiniad myfyrwyr. Mae [Datganiad Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau](#) QAA yn nodi, er nad oes terfynau uchaf nac isaf ar faint, na ddylai micro-gymhwyster fod yn gymhwyster ynddo'i hun ar y [Fframweithiau Cymwysterau](#) ar gyfer AU. Bwriedir y Datganiad Nodweddion ar gyfer micro-gymwysterau AU yn unig ac, er ei fod yn alinio â'r egwyddorion yn y Datganiad, mae'r Fframwaith hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r canllawiau hyn i gwmpasu pob micro-gymhwyster trydyddol. Oherwydd natur fach a phenodol y dyfarniadau hyn, a chan fod nifer o ddarparwyr yn cynnig tystysgrifau ôl-raddedig 60 credyd, cytunwyd na ddylai micro-gymwysterau fod yn fwy na 40 credyd. Gall cyrff/sefydliadau dyfarnu osod terfynau sefydliadol o fewn y ffiniau hyn yn unol â'u strategaethau eu hunain. Er enghraifft, gall prifysgol benderfynu peidio â dyfarnu micro-gymwysterau sy'n cynnwys llai na 10 credyd. Gall darparydd gynnig micro-gymhwyster sy'n fwy na 40 credyd lle ystyrir bod hynny er budd y dysgwr, er enghraifft lle bydd rhannu modiwl sy'n bodoli eisoes yn ddyfarniadau llai yn cael effaith negyddol ar lwyth asesu neu gyfarwydd y cwrs. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, efallai y bydd darparydd am ystyried a yw dyfarniad mwy sylweddol yn fwy priodol i'w ddynodi, fel Dyfarniad neu Dystysgrif y corff dyfarnu neu'r sefydliad, er mwyn cynorthwyo â chysondeb mewn terminoleg ar draws y sector.

Gall micro-gymwysterau fod ar unrhyw lefel (Lefel 1 i Lefel 8). Mae yna amryw o astudiaethau achos ar [dudalen we QAA Cymru ar gyfer micro-gymhwysterau](#) gan gynnwys enghreifftiau o ficro-gymwysterau o Lefel 1 hyd at Lefel 7.

Mae pentyrru'n cynnig cyfle i ddysgwyr gyfuno deilliannau dysgu a gyflawnwyd, a ddangosir trwy gyfuniad o ficro-gymwysterau, i ennill dyfarniad mwy neu facro-gymhwyster. Darperir rhagor o wybodaeth am bentyrru ac ystyriaeth darparwyr o gyfleoedd pentyrru yn Adrannau [3.5](#), [3.7](#), [3.9](#) a [3.10](#).

Er mwyn eglurder ac i gynorthwyo â dealltwriaeth, darperir rhestr o dermau a ddefnyddir o fewn y Fframwaith hwn yn Adran 6. Mae'r rhestr termau yn cynnwys rhai diffiniadau a wnaed yn flaenorol [a gyhoeddwyd gan QAA](#) ac mae'n seiliedig ar arfer micro-gymwysterau bydeang.

Lle bynnag y bo'n briodol, mae'r diffiniadau'n gyson â'r rhai y cytunwyd arnynt â'r sector.



3. Arferion Allweddol

Er mwyn galluogi rhannu hyder yn ansawdd a safonau micro-gymwysterau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, dylai pob darparwydd sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd cadarn yn cael eu sefydlu, eu gweithredu a'u cynnal ar gyfer dylunio, datblygu, marchnata, cyflwyno, asesu, ardystio, monitro ac adolygu micro-gymwysterau.

Mae'r adran hon o'r Fframwaith yn cyflwyno 12 arfer allweddol y dylai darparwyr eu dilyn wrth ddatblygu rheoliadau, polisiâu a phrosesau ar gyfer dylunio a chyflwyno micro-gymwysterau. Mae'r arferion hyn, sy'n seiliedig ar y 12 Egwyddor y Cytunwyd arnynt gan y Sector o [Gôd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch 2024](#), yn cynorthwyo â datblygiad a chyflwyno darpariaeth gredadwy o ansawdd uchel i bob rhanddeiliad gan gynnwys dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr. Bwriedir i'r iaith a'r enghreifftiau a ddefnyddir yn y Fframwaith hwn drwyddo draw fod yn gwbl gynhwysol o'r sectorau trydyddol ehangach yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Yn gyffredinol, dylai darparwyr ymwneud â'r arferion allweddol canlynol sy'n briodol ac yn gymesur â chymhlethdod a lefel eu micro-gymwysterau.

Arferion allweddol ar gyfer micro-gymwysterau

Ymagwedd strategol

1. Ymagwedd strategol at ymdrin ag ansawdd a safonau
2. Ymgysylltiad dysgwyr
3. Adnoddau ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel.

Gwerthuso Ansawdd a Safonau

4. Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd micro-gymwysterau
5. Monitro, gwerthuso a gwella darpariaeth micro-gymwysterau
6. Adolygiad ac achrediad allanol

Gweithredu'r ymagwedd at wella ansawdd a safonau

7. Dylunio, datblygu a chymeradwyo micro-gymwysterau
8. Partneriaethau â sefydliadau eraill
9. Recriwtio, dethol a derbyn dysgwyr
10. Cynorthwyo dysgwyr micro-gymwysterau i gyflawni
11. Dysgu, addysgu ac asesu
12. Prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau

3.1 Ymagwedd strategol at ymdrin ag ansawdd a safonau

Mae darparwyr yn dangos bod ganddynt ddull strategol o sicrhau safonau academiaidd a sicrhau a gwella ansawdd ar gyfer darpariaeth micro-gymwysterau sydd wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad.

Yn y pen draw, cyfrifoldeb cyrff/sefydliadau dyfarnu yw safonau academiaidd, a dylai pob darparydd micro-gymwysterau sicrhau bod darpariaeth micro-gymwysterau yn gyson â rheoliadau academiaidd perthnasol ac yn destun y polisiau a'r gweithdrefnau priodol. Mae micro-gymwysterau yn ddyfarniadau ynddynt eu hunain, a dylid eu cynnwys o fewn rheoliadau cyrff/sefydliadau dyfarnu gan gynnwys unrhyw derfynau neu eithriadau sefydliadol mewn perthynas â therfynau credyd. Hefyd o ran cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL) a/neu asesu, yn enwedig lle mae'r rhain yn wahanol i reoliadau perthnasol eraill sydd ar waith ar gyfer dyfarniadau sylweddol neu facro-gymwysterau mwy.

Dylai ymagwedd darparydd at sicrhau ansawdd a gwella micro-gymwysterau fod yn briodol ac yn gymesur.

Dylai darparwyr gyfeirio'n benodol at y ddarpariaeth micro-gymwysterau yn eu polisiau a'u strategaethau ansawdd a safonau sefydliadol. Efallai y bydd darparwyr am ddiwygio rhai o'r prosesau i alluogi dull cymesur o reoli ansawdd. Yn benodol, dylai darparwyr ystyried a yw prosesau ar gyfer cofrestru dysgwyr, asesu a chadarnhau dyfarniadau yn ddigon hyblyg i alluogi gwneud penderfyniadau cyflym.



Efallai y bydd angen adolygiad o bolisiau a gweithdrefnau sy'n berthnasol, neu a fydd yn berthnasol, i ddarpariaeth micro-gymwysterau a dysgwyr er mwyn sicrhau bod gan bob dysgwr micro-gymwysterau fynediad at brofiadau dysgu o ansawdd uchel a bod mecanweithiau cymorth perthnasol a chymesur yn cael eu nodi a'u cytuno cyn cofrestru dysgwyr. Bydd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr lu o bolisiau a gweithdrefnau, a dylai unrhyw adolygiad fod yn briodol ac yn gymesur. Isod mae polisiau/gweithdrefnau allweddol y dylai darparwyr o leiaf eu hadolygu. Dylai unrhyw benderfyniadau i newid neu gyfyngu ar fynediad, hawl neu gynrychiolaeth dysgwyr micro-gymwysterau, er enghraifft, fod yn gymesur ac yn deg, a dylen fod yn gyson â chanllawiau rheoleiddio.

Rheoliadau dyfarnu

Mae cyrff dyfarnu yn sicrhau bod micro-gymwysterau wedi'u cynnwys yn eu rheoliadau academiaidd fel dyfarniadau ynddynt eu hunain sy'n cydymffurfio â'r terfynau credyd a nodir yn y Fframwaith hwn.

Cymeradwyaeth ac adolygiad

Mae darparwyr yn ystyried a yw prosesau presennol ar gyfer cymeradwyo ac adolygu cyrsiau yn briodol ar gyfer micro-gymwysterau ac yn ddigon hyblyg i alluogi ystwythder ac ymatebolrwydd ar gyfer datblygu darpariaeth cyrsiau byr; gweler [Adran 3.5](#).

Statws y dysgwr

Mae darparwyr, ar ôl ymgynghori â'u hundebau/cymdeithasau myfyrwyr, yn cytuno ar statws dysgwyr micro-gymwysterau a allai fod â chysylltiad cyfyngedig â darparydd; gweler [Adrannau 3.2](#) a [3.9](#).

Derbyniadau

Mae darparwyr yn ystyried sut y bydd micro-gymwysterau'n cael eu hysbysebu a phriodoldeb y gofynion mynediad, gweler [Adran 3.9](#).

Mynediad at wasanaethau darparwyr

Mae darparwyr yn nodi gwasanaethau academiaidd a bugeiliol y bydd gan ddysgwyr micro-gymwysterau fynediad iddynt, yn ogystal â'r rhai na fydd ganddynt fynediad iddynt, ac yn ystyried effaith unrhyw gyfyngiadau ar brofiad y dysgwr micro-gymwysterau; gweler [Adrannau 3.3](#) a [3.10](#).

Asesiad

Mae darparwyr yn ystyried strategaethau a phrosesau ar gyfer asesu a'u haddasrwydd ar gyfer darparu micro-gymwysterau; gweler [Adran 3.11](#).

Goruchwyliaeth ansawdd

Mae gan ddarparwyr strategaethau clir ar gyfer goruchwyllo ansawdd y ddarpariaeth micro-gymwysterau a phrofiad y dysgwr, gweler [Adran 3.5](#).

Cwynion ac apeliadau

Mae darparwyr yn sicrhau bod y prosesau ar gyfer cwynion ac apeliadau yn deg ac yn briodol ar gyfer dysgwyr micro-gymwysterau; gweler [Adran 3.12](#).

3.2 Ymgysylltiad dysgwyr

Mae darparwyr yn cymryd camau bwriadol i ymgysylltu dysgwyr micro-gymwysterau fel partneriaid gweithredol wrth sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu myfyrwyr.

Mae ymgysylltiad effeithiol gan ddysgwyr yn hanfodol ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel. Bydd natur yr ymgysylltiadau yn cael ei lywio, yn rhannol, gan genhadaeth ac ethos y darparydd, y math o ddysgwr ac am faint o amser y mae dysgwr wedi cofrestru â darparydd.

3.2.1 Dysgwyr micro-gymwysterau

Nid oes un math penodol o ddysgwr micro-gymwysterau, ond mae'n debygol y byddant yn wahanol i'r rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau llawn-amser neu ran-amser hirach. Dyma rai enghreifftiau o unigolion a allai astudio micro-gymwysterau a fydd yn cael eu hadlewyrchu mewn ystod eang o fathau o ddysgwyr:

- gweithiwr yn ymgymryd â micro-gymhwyster i uwchsgilio mewn maes penodol sy'n uniongyrchol berthnasol i'w waith
- unigolion sy'n ymgymryd ag un neu fwy o ficro-gymwysterau i ddatblygu sgiliau neu wybodaeth i'w galluogi i ymuno neu ailymuno â'r gweithlu
- y rhai sy'n ymgymryd â chwrs blasu cyn gwneud cais ymuno â chwrs macro-gymhwyster fel diploma neu radd israddedig
- myfyrwyr cyfredol sy'n ymgymryd â micro-gymwysterau ochr-yn-ochr â'u prif raglen astudio mewn pynciau cyflenwol neu heb unrhyw berthynas â'u pwnc dewisol
- dysgwyr chwilfrydig sydd eisiau astudio pwnc sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Yn ogystal â'u rhesymau dros astudio, bydd gan ddysgwyr micro-gymwysterau ystod eang o nodweddion personol y dylid eu hystyried. Ni fydd gan rai dysgwyr unrhyw brofiad blaenorol, neu ddiweddar, o addysg ar lefel eu micro-gymhwyster dewisol. Yn unol â chyfrifoldebau statudol, dylai darparwyr ystyried nodweddion gwarchodedig dysgwyr, ond dylent hefyd sicrhau, lle bo angen unrhyw gymorth neu addasiadau ychwanegol, y gellir eu darparu mewn modd amserol tra bod y dysgwr wedi'i gofrestru ar y micro-gymhwyster. Yn ogystal, dylai darparwyr yng Nghymru ystyried gofynion y Gymraeg gan nodi y gallai rhai siaradwyr Cymraeg fod yn brin o hyder neu heb fod yn rhugl yn yr iaith.



3.2.2 Dysgwyr fel partneriaid

'Mae ymgysylltiad dysgwyr fwyaf effeithiol pan gaiff ei arwain gan anghenion dysgwyr.'^b O ystyried ystod amrywiol o ddysgwyr a lleoliadau, 'nid oes un dull "cywir" o ymgysylltu â dysgwyr' a dylai darparwyr micro-gymwysterau adolygu strategaethau a pholisïau presennol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr i benderfynu ar yr agweddau sy'n berthnasol i'w dysgwyr micro-gymwysterau. Dylai'r adolygiad hwn ystyried y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer micro-gymwysterau a'r ddarpariaeth arfaethedig ac ystyried yr ystod o ficro-gymwysterau a fydd ar gael i'w hastudio er mwyn llywio dulliau gweithredu rhesymol a chymesur. Mae micro-gymwysterau a gyflwynir dros gyfnodau byr o amser, fel digwyddiadau un neu ddau ddiwrnod, neu floc dysgu o wythnos, yn debygol o gynnig cyfleoedd gwahanol ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr, o'u cymharu â micro-gymwysterau a gyflwynir dros dymor, semester neu flwyddyn. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd ymgysylltiad y rhai sy'n dysgu ar-lein yn unig yn wahanol i'r rhai sy'n astudio mewn darparydd wyneb-yn-wyneb neu trwy ddulliau dysgu cymysg; gweler [Adran 3.11.1](#).

Er mwyn cynorthwyo ymgysylltiad dysgwyr â'u hastudiaethau a gyda chyfoedion ac addysgwyr, dylai darparwyr ystyried ffyrdd o hwyluso cyfathrebu â dysgwyr, yn enwedig wrth ymgymryd â micro-gymwysterau ar-lein. Efallai y byddai'n briodol i ddysgwyr gael mynediad at amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) neu safle diogel i ymgysylltu ag addysgwyr a chyfoedion. Lle bo'n briodol, mae cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu'n gydamserol â chyfoedion a staff micro-gymwysterau, ar-lein neu wyneb-yn-wyneb, yn debygol o hybu gwell ymgysylltiad ymysg dysgwyr.

Er mwyn darparu tryloywder, anogir darparwyr micro-gymwysterau i wneud pob ymdrech i hyrwyddo mecanweithiau adborth dysgwyr. Dylid gofyn i ddysgwyr roi adborth ar eu profiad fel dysgwyr micro-gymwysterau, megis trwy arolygon, grwpiau ffocws neu gynrychiolaeth ar bwyllgorau ansawdd perthnasol. Lle bo'n briodol, dylai cefnogaeth a hyfforddiant fod ar gael i gynrychiolwyr dysgwyr micro-gymwysterau, wedi'u cynllunio i symleiddio cyfranogiad heb orlwytho'r dysgwr. Dylai darparwyr hefyd rannu crynodeb o adborth gan ddysgwyr, ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i hynny, â dysgwyr micro-gymwysterau.



^b Wedi'i gymryd o'r [Côd Ymgysylltu â Dysgwyr Medr](#), 2026

Dylai'r cyfleoedd ymgysylltu canlynol ar gyfer dysgwyr gael eu hwyluso gan bob darparydd micro-gymwysterau.

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Bydd darparwyr yn ystyried ffyrdd o hwyluso cyfathrebu dysgwyr â chyfoedion ac addysgwyr ar ficro-gymwysterau, e.e. trwy amgylchedd dysgu rhithiol (VLE)	Dylai fod gan ddysgwyr micro-gymwysterau gyfleoedd i ymgysylltu'n gydamserol â chyfoedion ac addysgwyr, ar-lein neu wyneb-yn-wyneb
Mae darparwyr yn mynd ati'n fwriadol i ofyn am farn dysgwyr (e.e. arolwg) ac yn annog ymgysylltiad	Mae darparwyr yn defnyddio arolwg dysgwyr micro-gymwysterau pwrpasol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu ffynhonnell wybodaeth o ansawdd uchel
Dylai fod yna ddull strwythuredig i ddysgwyr roi adborth i'r darparydd ar ddiwedd y micro-gymhwyster	Dylai dysgwyr micro-gymwysterau gael cyfle i gymryd rhan weithredol yn y broses o ddylunio a/neu adolygu mecanweithiau adborth micro-gymwysterau
Mae darparwyr yn ystyried barn dysgwyr ac yn ei defnyddio i lywio fersiynau o'r micro-gymhwyster ar gyfer y dyfodol	Mae darparwyr yn ystyried barn dysgwyr ac yn ei defnyddio i lywio strategaethau, polisiau a gweithdrefnau micro-gymwysterau ar lefel y darparydd
Ar gyfer micro-gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae adborth dysgwyr yn nodi'n benodol y profiad o astudio trwy'r Gymraeg, gan gynnwys hyder, profiad o ddefnyddio'r iaith ar y cwrs ac anghenion cymorth	

3.3 Adnoddau ar gyfer profiad dysgu o ansawdd uchel

Mae darparwyr yn cynllunio, sicrhau a chynnal adnoddau addas sy'n ymwneud â dysgu micro-gymwysterau, gan gynnwys technoleg, cyfleusterau a staffio er mwyn galluogi darparu a gwella profiad dysgu hygyrch, arloesol ac o ansawdd uchel i ddysgwyr micro-gymwysterau.

Fel yr amlinellwyd yn [Adran 3.2](#) uchod, mae'n debygol y bydd dysgwyr micro-gymwysterau yn wahanol i'r rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau llawn-amser neu ran-amser hirach. Ni fydd gan rai dysgwyr unrhyw brofiad blaenorol, neu ddiweddar, o addysg ar lefel eu micro-gymhwyster dewisol. Yn ogystal, gall dysgwyr ddewis astudio micro-gymhwyster oherwydd ei natur fer a'r hyn mae'n canolbwyntio arno, a allai fod yn fwy addas ar gyfer ystod o nodweddion personol a/neu anghenion. Dylai darparwyr sicrhau, lle mae angen unrhyw gymorth neu addasiadau academiaidd neu anacademaidd ychwanegol, y gellir eu darparu mewn modd amserol tra bod y dysgwr wedi'i gofrestru ar y micro-gymhwyster.

Dylai micro-gymwysterau gael eu cyflwyno gan staff cymwys a/neu brofiadol addas sydd â dealltwriaeth o'r deunydd sy'n cael ei gyflwyno a natur dysgwyr micro-gymwysterau (gweler hefyd [Adran 3.2](#)). Mae hyn yn cynnwys addysgu ar ffurf cyflwyno a hwyluso dysgu trwy sesiynau ar-lein neu gyfunol. Yn yr un modd, dylai adnoddau dysgu fod yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged a dylai'r rhai sy'n creu'r cyrsiau hyn hefyd fod â'r ddealltwriaeth briodol o natur dysgwyr micro-gymwysterau.

Dylai darparwyr adolygu gwasanaethau proffesiynol/cymorth mewnol a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol i benderfynu ar unrhyw addasiadau a allai fod yn ofynnol i sicrhau bod gan ddysgwyr micro-gymwysterau brofiad o ansawdd uchel, o'u derbyn hyd at gwblhau'r cwrs. Gall hyn gynnwys adolygu polisïau a gweithdrefnau ansawdd a gwelliant, ynghyd â rôl a phrosesau timau derbyn, cyllid, y gofrestrfa a chofnodion myfyrwyr. Hefyd mynediad at lyfrgelloedd, gwasanaethau gyrfaoedd a gwasanaethau cymorth academiaidd a bugeiliol.



Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Dylai micro-gymwysterau gael eu cyflwyno gan staff cymwys priodol sydd â dealltwriaeth o'r deunydd sy'n cael ei gyflwyno a natur dysgwyr micro-gymwysterau	Dylai darparwyr ddatblygu hyfforddiant priodol ar gyfer staff addysgu micro-gymwysterau i gynorthwyo â dealltwriaeth o ddysgwyr micro-gymwysterau a darparu profiad dysgu o ansawdd uchel
Dylai fod gan ddysgwyr fynediad at adnoddau angenrheidiol ar gyfer y pwnc lle bo angen, er mwyn gallu ymgymryd â micro-gymwysterau, fel meddalwedd neu offer arbenigol	Yng Nghymru, mae darparwyr yn cynllunio capasiti staff cyfrwng Cymraeg ar gyfer micro-gymwysterau, yn enwedig mewn meysydd pwnc ac ar lefelau uwch lle mae staff arbenigol sy'n medru'r Gymraeg yn brin
Mae testunau hanfodol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, adnoddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ar gael i ddysgwyr micro-gymwysterau trwy fynediad wyneb-yn-wyneb neu ar-lein i'r llyfrgell, neu trwy adnoddau ffynhonnell agored sydd wedi'u harwyddo'n glir ac sydd ar gael yn rhwydd	
Dylai cymorth sgiliau astudio perthnasol fod ar gael sy'n briodol ac yn gymesur â'r micro-gymhwyster	

3.4 Defnyddio data i lywio a gwerthuso ansawdd micro-gymwysterau

Mae darparwyr yn casglu, dadansoddi a defnyddio data ansoddol a meintiol ar lefel darparwyr, adrannau, rhaglenni y gellir eu pentyrru a micro-gymwysterau unigol. Mae'r dadansoddiadau hyn yn hwyluso gwneud penderfyniadau â'r nod o wella arferion a phrosesau sy'n ymwneud ag addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y dysgwr.

Ni chaiff arferion hanfodol fel defnyddio data yn foesebol, cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data genedlaethol a gofynion rheoleiddio perthnasol eu hailadrodd yma. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai staff gyfeirio at bolisiau data ar lefel y darparydd a/neu geisio cyngor gan gyrff rheoleiddio.



Fel y nodwyd mewn man arall, dylai darparwyr fabwysiadu dulliau cymesur a rhesymol o gasglu a defnyddio data fel yr amlinellir yma.

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Ymagwedd strategol at gasglu, storio a rheoli data ar draws y darparydd wedi'i chyfleu'n glir mewn strategaethau a pholisïau micro-gymwysterau ar lefel y darparydd	Dylai darparwyr gasglu data ychwanegol am ddysgwyr i wella'r ddarpariaeth a hygyrchedd cymorth i ddysgwyr ac i gynorthwyo â monitro ac adolygu. Mae hyn yn debygol o gynnwys data ar iechyd ac anabledau, ethnigrwydd, nodweddion gwarchodedig, a phwrpas astudio, ac yng Nghymru, iaith astudio
Dylai darparwyr gasglu data hanfodol am ddysgwyr wrth gofrestru/ymrestru neu cyn hynny, fel sy'n ofynnol ar gyfer goruchwyliaeth statudol a rheoleiddiol. Bydd hyn yn cynnwys o leiaf enw, dyddiad geni, cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth, cenedligrwydd a nodweddion personol sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr perthnasol	Dylai darparwyr gynnal cofnod diogel a chanolog o unrhyw ddata ychwanegol ar gyfer dysgwyr micro-gymwysterau nad oes rhaid ei adrodd i'r rheoleiddiwr perthnasol
Dylai darparwyr gynnal cofnod diogel a chanolog o ddata dysgwyr micro-gymwysterau y mae'n ofynnol ei adrodd i'r rheoleiddiwr perthnasol	Dylai crynodeb o ddata perfformiad dysgwyr micro-gymwysterau gael ei adrodd yn fewnol, a'i adolygu gan, strwythurau priodol ar gyfer goruchwyllo ansawdd a safonau
Dylai darparwyr gynnal cofnod diogel a chanolog o ddata perfformiad (dargadwedd a chyflawniad) dysgwyr micro-gymwysterau	Mae darparwyr yng Nghymru yn ystyried dangosyddion ansawdd a deilliannau dysgwyr yng nghyd-destun datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg
Dylid defnyddio data perfformiad dysgwyr micro-gymwysterau i gynorthwyo â gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth micro-gymwysterau	
Yng Nghymru, mae darparwyr yn cofnodi iaith astudio ar gyfer micro-gymwysterau	

3.5 Monitro, gwerthuso a gwella darpariaeth micro-gymwysterau

Mae darparwyr yn monitro ac yn adolygu eu darpariaeth micro-gymwysterau yn rheolaidd i sicrhau safonau academiaidd a gwella ansawdd. Dylid cymryd camau cymesur a bwriadol i ymgysylltu â dysgwyr, staff ac arbenigedd allanol a'u cynnwys mewn gweithgaredd monitro a gwerthuso. Dylid ystyried deilliannau ac effaith y gweithgareddau hyn ar lefel y darparydd er mwyn hwyluso gwelliant ar draws y darparydd.

Dylai pob micro-gymhwyster fod yn destun monitro ac adolygu rheolaidd. Bydd hyn yn galluogi darparwyr i fod yn hyderus bod y dyfarniadau'n parhau i gyflawni eu hamcanion datganedig a bod y cynnwys a'r deilliannau dysgu yn parhau i fod yn berthnasol i'r gynulleidfa darged. Dylai darparwyr fod â strategaethau clir ar gyfer goruchwylio ansawdd y ddarpariaeth micro-gymwysterau a phrofiad y dysgwr, gan sefydlu strwythurau ar wahân ar gyfer micro-gymwysterau lle bo'n briodol. Dylid adolygu prosesau clir ar gyfer monitro ac adolygu micro-gymwysterau yn rheolaidd yn seiliedig ar feincnodau perthnasol, megis Côt Ansawdd y DU, yn ogystal â rhoi sylw dyledus i unrhyw brosesau sicrhau ansawdd allanol perthnasol.

Dylai adolygiad o ficro-gymwysterau roi ystyriaeth i adborth dysgwyr; gweler [Adran 3.2](#). Dylai adolygiad micro-gymwysterau hefyd roi ystyriaeth i berfformiad dysgwyr gan gynnwys dargadwedd a chyflawniad, gan ddefnyddio data a gasglwyd fel yr amlinellir yn [Adran 3.4](#). Lle bo'n briodol, dylai adolygiad hefyd ystyried gwahanol nodweddion dysgwyr i lywio newidiadau neu weithgarwch gwelliant.

Argymhellir i ddarparwyr gynnwys allanoldeb yn eu prosesau adolygu micro-gymwysterau. Gall allanoldeb gynnwys defnyddio arholwyr/gwirwyr allanol i wneud sylwadau ar ansawdd a safonau dyfarniadau micro-gymwysterau a pherfformiad dysgwyr. Gall darparwyr hefyd ceisio barn gan staff mewnol a dysgwyr sy'n allanol i adran neu ysgol y micro-gymwysterau sy'n cael eu hadolygu, yn enwedig lle, er enghraifft, mae dyfarniad bach iawn yn cael ei adolygu neu ble nad oes llawer o ddysgwyr. Gall defnydd cymesur o allanoldeb fod yn yr adolygiad cyfnodol o grŵp neu gyfres o ficro-gymwysterau.

Dylai darparwyr sy'n cynnig micro-gymwysterau ar gyfer uwchsgilio a/neu ddatblygu'r gweithlu geisio ac ystyried adborth gan gyflogwyr, cynrychiolwyr cyflogwyr a/neu randdeiliaid priodol eraill ynghylch pa mor gyfredol yw'r dyfarniadau ynghyd â'u perthnasedd (gweler hefyd [Adrannau 3.8 a 4](#)). Dylai cynllunio, monitro ac adolygu micro-gymwysterau gynnwys ystyriaeth briodol o wybodaeth berthnasol am y farchnad lafur.

Lle mae micro-gymwysterau yn pentyrru i gyflawni macro-gymwysterau, dylai darparwyr sicrhau bod y macro-gymwysterau terfynol hefyd yn cael eu hadolygu. Yn benodol, dylai darparwyr ystyried effeithiolrwydd pentyrru ar gydlyniant academiaidd y dyfarniad terfynol; er enghraifft, a yw trefn cyflawni micro-gymwysterau cyfansoddol yn cael effaith ar brofiad cyffredinol y dysgwr?

Dylai darparwyr ddefnyddio deilliannau monitro a gwerthuso i weithredu gwelliannau cymesur, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod dyfarniadau'n parhau i fod o ansawdd uchel.

Dylid adrodd canlyniadau'r adolygiad i strwythurau sefydliadol perthnasol, fel pwyllgorau neu weithgorau, er mwyn sicrhau y gall y sefydliad ddysgu unrhyw wersi a rhannu arfer da. Yn ddelfrydol, bydd y strwythurau yn cynnwys cynrychiolaeth dysgwyr; gweler [Adran 3.2](#). Yn yr un modd, dylid cynnwys canlyniadau adolygiadau a monitro mewnol mewn hunan-werthusiadau ar lefel y darparydd, lle bo'n briodol; gweler hefyd [Adran 3.6](#).

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Mae gan ddarparwyr strategaethau clir ar gyfer goruchwyllo ansawdd y ddarpariaeth o ficro-gymwysterau	Mae darparwyr sy'n cynnig micro-gymwysterau ar gyfer uwchsgilio a/ neu ddatblygu'r gweithlu yn ceisio ac yn ystyried adborth gan gyflogwyr, cynrychiolwyr cyflogwyr a/neu randdeiliaid priodol eraill
Mae micro-gymwysterau yn destun monitro ac adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan ystyried perfformiad ac adborth dysgwyr	Lle mae micro-gymwysterau'n pentyrru i gyflawni macro-gymwysterau, mae darparwyr hefyd yn adolygu'r macro-gymwysterau terfynol
Mae darparwyr yn cynnwys allanoldeb yn eu prosesau adolygu micro-gymwysterau	Ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, mae darparwyr yn ceisio defnyddio arholwyr/ymgynghorwyr allanol sy'n meddu ar y sgiliau iaith priodol
Cyflwynir adroddiad ynghylch canlyniadau'r adolygiad i strwythurau sefydliadol perthnasol	

3.6 Adolygiad ac achrediad allanol

Mae darparwyr yn ymgymryd ag adolygiadau allanol i roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd eu dull o reoli ansawdd a safonau. Gall sefydliadau cynrychioli, asiantaethau neu gyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol gynnal adolygiadau allanol.

Bydd darpariaeth micro-gymwysterau'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cael ei hystyried fel rhan o adolygiadau allanol o dan drefniadau rheoleiddio perthnasol. Nid yw'r Fframwaith yn ganllaw rheoleiddiol; fodd bynnag, gall adolygwyr/aseswyr allanol ddefnyddio'r Fframwaith fel cyfeirbwynt ar gyfer archwilio darpariaeth micro-gymwysterau'r darparydd.

Dylai darparwyr ystyried sut mae eu darpariaeth micro-gymwysterau yn alinio â'r egwyddorion a'r arferion allweddol a nodir yn y Fframwaith hwn, gan fyfyrir ar eu dull gweithredu lle bo hynny'n ddefnyddiol.

Dylai darparwyr gynnwys canlyniadau adolygiadau a monitro mewnol (gweler [Adran 3.5](#)) mewn hunanasesiadau ar lefel darparydd a gaiff eu paratoi a/neu eu cyflwyno fel rhan o asesiadau ansawdd allanol i gynorthwyo adolygiad allanol.

Lle mae darparwyr yn gweithio gyda chyrff proffesiynol, statudol a/neu reoleiddiol (PSRB), argymhellir cynnwys micro-gymwysterau perthnasol mewn prosesau ac adolygiadau achredu i ategu perthnasedd a chyfoesedd y ddarpariaeth.

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Lle bo'n briodol, mae darpariaeth micro-gymwysterau wedi'i chynnwys mewn hunan-asesiadau ar lefel darparydd a gaiff eu paratoi a/neu eu cyflwyno fel rhan o asesiadau ansawdd allanol	Mae darpariaeth micro-gymwysterau wedi'i chynnwys fel rhan o achrediad ac adolygiadau gan Gyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB)

3.7 Dylunio, datblygu a chymeradwyo micro-gymwysterau

Mae darparwyr yn dylunio, datblygu a chymeradwyo micro-gymwysterau i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a safonau academiaidd dyfarniadau yn gyson â lefelau perthnasol y fframwaith cymwysterau priodol.

Mae'r Adran hon yn fwriadol yn cynnwys rhywfaint o ddyblygu o Adrannau eraill y Fframwaith er mwyn darparu cyfeirnod parod i unrhyw un sy'n chwilio am ganllawiau ar gyfer dylunio micro-gymwysterau.^c

3.7.1 Dylunio micro-gymwysterau

Wrth ddylunio a chymeradwyo micro-gymwysterau, dylai darparwyr ystyried y gynulleidfa darged a sicrhau bod y ddarpariaeth micro-gymwysterau wedi'i chynllunio'n briodol i ddiwallu anghenion y dysgwyr a dargedir ac yn cefnogi gallu unigolion i adeiladu portffolio o ddysgu a chyflawniad yn unol â nodau ac amcanion personol; gweler [Adran 3.2.1](#).

3.7.2 Lefel a maint micro-gymwysterau

Fel y nodwyd yn [Adran 2](#), gellir datblygu micro-gymwysterau ar unrhyw lefel. Am ragor o wybodaeth am lefelau, dylai dylunwyr gyfeirio at y fframwaith cymwysterau perthnasol a allai fod y [Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig \(RQF\)](#), [Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\)](#) a/neu'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (FHEQ). Mae'r ddogfen sy'n dwyn y teitl [Gall Cymwysterau Groesi Ffiniau](#) yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol sy'n galluogi cymhariaeth rhwng cymwysterau a lefelau ar draws y DU ac Iwerddon.

Fel dyfarniad sy'n dwyn credydau, rhaid i micro-gymwysterau fod o leiaf un credyd o ran maint. Er mwyn cefnogi natur benodol y dysgu, ni ddylai micro-gymwysterau fod yn fwy na 40 credyd (gweler [Adran 2](#)). Lle mae mwy na 40 credyd o ddysgu wedi'u cynllunio, dylai darparwyr ddylunio unedau dysgu llai, fel y gellir eu coladu neu eu pentyrru (gweler [Adran 3.7.5](#) isod) i greu'r pecyn dysgu mwy a ddymunir. Yn yr achosion hyn, dylai darparwyr amlinellu agweddau perthnasol megis dysgu cysylltiedig neu ragofynion.

Pwynt pwysig i'w gofio wrth ystyried maint yw nad yw'r term 'micro-gymhwyster' o reidrwydd yn cyfeirio at fodiwl bach iawn. Yn hytrach, mae'n cynrychioli rhywbeth sy'n cael ei astudio ar lefel 'micro' a all sefyll ar ei ben ei hun a dal i fod â hygrededd a dilysrwydd, hyd yn oed os yw'n fodiwl neu'n uned a dynnwyd yn wreiddiol o raglen fwy.

^c Argymhellir bod pawb sy'n gyfrifol am ddylunio a chymeradwyo micro-gymwysterau yn darllen ac yn ymglyfarwyddo â'r Fframwaith hwn yn ei gyfarwydd er mwyn cynorthwyo â datblygiad darpariaeth o ansawdd uchel.

Gan eu bod yn ddyfarniadau bach, dylai pob micro-gymhwyster gwmpasu maes dysgu penodol; dylid osgoi dylunio un micro-gymhwyster i gwmpasu ystod o sgiliau neu gymwyseddau. Er enghraifft, byddai pecyn dysgu i uwchsgilio gweithwyr i ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau swyddfa megis cyflogres sylfaenol, egwyddorion rheoli adnoddau dynol a chadw llyfrau, yn cael ei gynllunio'n well fel tri neu fwy o ficro-gymwysterau yn hytrach na chyfuno'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i mewn i un dyfarniad.

Mae enghreifftiau o ficro-gymwysterau sy'n cwmpasu ystod o lefelau a meintiau ar [wefan QAA](#). Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyfres o ficro-gymwysterau Lefel 3, 10 credyd, fel rhan o'u [Rhaglen Dysgu Gymunedol](#). Derbyniodd saith o Ddeiliaid Contractau Prentisiaeth yng Nghymru gyllid dysgu yn y gweithle gan Medr yn 2025-26 ar gyfer cyflwyno micro-gymwysterau i brentisiaid gan gynnwys [Dyfarniadau City & Guilds Lefel 2](#) 7 credyd mewn weldio ac amrywiaeth o ddyfarniadau BPEC Lefel 3 arbenigol 3 a 4 credyd mewn ynni adnewyddadwy. Ar ôl ymgynghori â chyflogwyr yn yr Alban, nododd y Consortiwm Micro-gymwysterau mewn Colegau fod tua dau ddiwrnod o ddysgu yn ddelfrydol i lawer o weithwyr a'u cyflogwyr, a chytunwyd ar 2 gredyd fel maint safonol ar gyfer micro-gymwysterau. Mae rhai sefydliadau AU wedi defnyddio strwythurau cwricwlwm sy'n bodoli eisoes i greu micro-gymwysterau 20 credyd - sy'n cyfateb i un modiwl o'u darpariaeth israddedig neu ôl-raddedig.

3.7.3 Gofynion mynediad

Mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o ficro-gymwysterau yn gofyn am rywfaint o wybodaeth a/neu sgiliau blaenorol y bydd eu hangen ar ddysgwr er mwyn llwyddo. Gall hyn fod yn wybodaeth am y pwnc, sgiliau TG (gan gynnwys ar gyfer cyrsiau a gyflwynir ar-lein) a/neu'r gallu i astudio ar lefel benodol. Gall hyn fod yn bwysicach ar gyfer micro-gymwysterau ar Lefel 4 ac uwch, ac yn arbennig o bwysig i'r rhai sydd wedi'u targedu at raddedigion. Dylai darparwyr benderfynu ar ofynion mynediad priodol i annog cynhwysiant tra hefyd yn cynorthwyo â chyflawniad dysgwyr; gweler hefyd [Adran 3.9](#). Efallai y bydd angen ystyried unrhyw ofynion cyffredinol, megis ar gyfer cyflawniad blaenorol mewn Saesneg a Mathemateg, yn dibynnu ar y ddarpariaeth micro-gymwysterau a fydd yn cael ei datblygu. Dylai darparwyr hefyd ystyried y cyfle ar gyfer cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol fel llwybr priodol i dderbyn unigolion ar gyfer micro-gymwysterau (gweler [Adran 3.10](#)).



3.7.4 Dyfarniadau annibynnol

Dylai micro-gymwysterau fod yn ddyfarniadau annibynnol fel y nodir yn [Adran 2](#). Dylai dysgwr allu astudio micro-gymhwyster ac, ar ôl cwblhau'r asesiad(au) cysylltiedig yn llwyddiannus, cael ei ddyfarnu â'r micro-gymhwyster a gallu gorffen astudio ar y pwynt hwnnw. Serch hynny, dylid ystyried micro-gymwysterau yn elfen allweddol o ddysgu gydol oes a, lle bo modd, dylai dylunwyr micro-gymwysterau ystyried ble gall micro-gymwysterau arwain at astudiaeth bellach. Mae cael mynediad at ystod o ficro-gymwysterau cyflenwol y gellir eu pentyrru i ffurfio dyfarniadau mwy yn nodwedd arbennig o ficro-gymwysterau; gweler [Adran 3.7.5](#).

Bydd rhai darparwyr yn nodi rhannau o facro-gymwysterau mwy, a byddant yn cymeradwyo'r rhain fel micro-gymwysterau, e.e. modiwlau neu unedau o ddiplomâu a rhaglenni gradd. Os caiff modiwlau neu unedau astudio sy'n bodoli eisoes eu cymeradwyo fel micro-gymwysterau, dylai darparwyr sicrhau eu bod yn addas i sefyll ar eu pen eu hunain, gan ystyried yr arferion allweddol a ddarperir yn y Fframwaith hwn.

Dylai darparwyr fod yn ofalus wrth gymeradwyo unedau neu fodiwlau o facro-gymwysterau fel micro-gymwysterau. Dylai'r rhai sy'n dylunio a chymeradwyo ystyried pob un o'r agweddau allweddol a restrir yn yr Adran hon a gwneud penderfyniadau ynghylch eu haddasrwydd fel dyfarniadau annibynnol. Mewn rhai achosion, ni fydd gan y dysgwr fawr o brofiad o'r pwnc ar y lefel berthnasol, ac efallai y bydd gofyn iddo astudio ar ei ben ei hun a/neu ar-lein heb y gefnogaeth a'r mynediad at adnoddau a gwasanaethau a roddir i fyfyrwyr ar y macro-gymhwyster gwreiddiol.



3.7.5 Pentyrru

Pentyrru yw'r cyfle i ddysgwyr gyfuno deilliannau dysgu a gyflawnwyd, a ddangosir trwy gyfuniad o ficro-gymwysterau, er mwyn cyflawni dyfarniad mwy neu facro-gymhwyster. Mewn rhai achosion, bydd y llwybr ar gyfer pentyrru yn glir. Er enghraifft, yn yr [astudiaeth achos](#) hwn mae Prifysgol Abertawe yn amlinellu'r cyfle i ddysgwr gasglu micro-gymwysterau o amrywiaeth o brifysgolion yng Nghymru i ennill Tystysgrif Addysg Uwch mewn Cyfrifiadureg.

Wrth i fwy o ficro-gymwysterau ddod ar gael, gall cyrff/sefydliadau dyfarnu ystyried dylunio dyfarniadau 'capfaen' lle gellir pentyrru ystod o ficro-gymwysterau i gyflawni macro-gymhwyster. Gall hyn gynnwys micro-gymwysterau gan amrywiaeth o ddarparwyr a/neu gyrff/sefydliadau dyfarnu a gall gynnwys cyfuniad o gynnwys technegol, galwedigaethol neu academiaidd. Dylid cyfleu llwybrau hysbys ar gyfer pentyrru micro-gymwysterau yn glir i ddysgwyr cyn dechrau ar unrhyw ficro-gymwysterau; gweler [Adran 3.9](#).

Dylai darparwyr ystyried a yw dyfarniad y gellir ei bentyrru yn ganlyniad priodol ar gyfer cyflawni set o ficro-gymwysterau yn llwyddiannus a sicrhau bod yr holl ystyriaethau perthnasol yn cael eu trafod cyn cymeradwyo'r dyfarniad a 'bentyrrwyd'. Gall hyn gynnwys 'oes' o ficro-gymwysterau, gan nodi y gallai rhai micro-gymwysterau, yn enwedig y rhai sy'n seiliedig ar gaffael neu ymarfer sgiliau cyfoes (yn hytrach na gwybodaeth neu ddamcaniaeth glasurol neu sefydledig) ddod yn hen ffasiwn neu gael eu disodli gan wybodaeth, canfyddiadau, safonau neu ddeddfwriaeth fwy diweddar.

Dylai darparwyr sicrhau bod dyfarniadau y gellir eu pentyrru wedi'u cynnwys yn eu rheoliadau a'u bod yn cydymffurfio â rheolau sy'n ymwneud â throsglwyddo credydau a chydabyddiaeth o ddysgu blaenorol; gweler hefyd [Adran 3.10.2](#). Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu na chyfrif credyd ddwywaith.



3.7.6 Deilliannau dysgu ac asesu

Mae micro-gymwysterau yn ddyfarniadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau a dylai dylunwyr fynegi'n glir y deilliannau dysgu y mae angen eu cyflawni i ennill y micro-gymhwyster. Wrth ddisgrifio canlyniadau, dylai dylunwyr gyfeirio at ddisgrifwyr neu ganllawiau perthnasol eraill mewn cyfeirbwyntiau megis y fframwaith cymwysterau perthnasol (RQF, CQFW a/neu FHEQ).

Dylai dylunwyr ystyried a yw deilliannau dysgu yn wybodaeth, sgiliau, ymagweddau a/neu gymwyseddau yn unol â lefel y dyfarniad a'r gynulleidfa darged. Mae Bloom's Taxonomy yn darparu cyfeirnod defnyddiol ar gyfer dewis iaith gryno i ddisgrifio deilliannau dysgu yn gywir. Dylai dylunwyr hefyd ystyried nifer y deilliannau ar gyfer pob micro-gymhwyster, gan gofio bod angen asesu pob canlyniad. Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn dymuno gosod terfynau ar nifer y deilliannau dysgu ar gyfer nifer penodol o gredydau a hefyd nifer y tasgau asesu – gall hyn gynorthwyo â chymesuredad adnoddau ac ymdrech i ddysgwyr a staff.

Anogir darparwyr i adolygu eu polisiâu asesu presennol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ar gyfer dyfarniadau bach (gweler [Adran 3.11](#)). Yn benodol, dylai darparwyr ystyried rôl gwirio neu gymedroli mewnol ac allanol. Wrth adolygu prosesau, dylai darparwyr fod yn ofalus i sicrhau bod ansawdd pob dyfarniad yn cael ei sicrhau'n briodol, a bod gweithredoedd a gofynion staff yn gymesur.

3.7.7 Cymeradwyaeth

Dylai pob micro-gymhwyster fod yn destun proses gymeradwyo ffurfiol, wedi'i dogfennu'n glir, ac sy'n gyson â natur y dyfarniad. Gall y broses hon fod yn wahanol i broses y sefydliad ar gyfer cymeradwyo dyfarniadau mwy er mwyn galluogi'r broses i fod yn gymesur, yn enwedig o ran amserlenni perthnasol. Serch hynny, dylai'r broses gymeradwyo fod yn ddigon cadarn ac yn rhoi ystyriaeth i'r rheolau a'r arferion allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith hwn.

Dylai darparwyr ystyried eu gofynion ar gyfer allanoldeb yn ystod y cam cymeradwyo. Er mwyn galluogi ymateb cymesur ac amserol i ddylunio micro-gymwysterau, mae'n debygol y bydd hyn yn seiliedig yn rhannol ar faint y micro-gymwysterau ac unrhyw berthynas â dyfarniadau eraill sy'n bodoli neu sydd hefyd yn cael eu cymeradwyo. Dylai darparwyr hefyd ystyried y cyfle i gyflogwyr a/neu'r PSRB gymryd rhan yn y broses gymeradwyo.

Yn ystod y cam cymeradwyo, dylai darparwyr ystyried ystod eang o agweddau sy'n debygol o effeithio ar brofiad y dysgwr. Darperir set o gwestiynau myfyriol i gynorthwyo darparwyr â'u prosesau cymeradwyo – nid yw hon wedi'i bwriadu i fod yn rhestr gynhwysfawr o ystyriaethau cymeradwyo, ond yn hytrach fel cymorth i ategu dulliau cymeradwyo sy'n bodoli eisoes. Dylai darparwyr fabwysiadu dull cymesur o gymeradwyo micro-gymwysterau gan lynu wrth ymrwymiad i ddarparu profiad dysgwr o ansawdd uchel a chynnal safonau academiaidd.

Cwestiynau i gynorthwyo cymeradwyaeth micro-gymwysterau

- A yw'r micro-gymhwyster yn bodloni'r egwyddorion o ran maint a sgôr credyd?
- A yw'r gynulleidfa darged a/neu bwrpas y micro-gymhwyster wedi'i nodi? Gall hyn fod ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu, micro-gymhwyster fel rhagflas i alluogi ddilyniant i facro-gymhwyster, ychwanegiad at astudiaeth bresennol, dysgu ar gyfer hamdden/diddordeb personol neu bleser.
- Lle mae micro-gymwysterau wedi'u cynllunio ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu, a ymgynghorwyd â'r cyflogwyr / cynrychiolwyr diwydiant priodol? A yw blaenoriaethau sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol wedi cael eu hystyried?
- Er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr y gallu i lwyddo, pa ddysgu blaenorol neu unrhyw gymwysterau neu brofiad rhagarweiniol sy'n ofynnol?
- A yw'r dull dysgu (wyneb-yn-wyneb, ar-lein neu gymysg) wedi'i bennu ac a yw hyn yn diwallu anghenion y gynulleidfa darged?
- Pa adnoddau y bydd angen i ddysgwyr gael mynediad atynt ac a fydd y rhain ar gael i bob dysgwr?
- Pa gefnogaeth academiaidd fydd ar gael i ddysgwyr?
- Pa wasanaethau ar lefel darparwydd y bydd gan y dysgwr hawl i'w cyrchu ac a fyddant ar gael i bob dysgwr? Ystyriwch ddysgwyr na fyddant yn mynychu'r darparwydd yn bersonol neu sy'n gwneud hynny am gyfnodau cyfyngedig o amser yn unig. Ystyriwch ddysgwyr sydd â phroblemau iechyd neu anableddau.
- A oes micro-gymwysterau cyflenwol y gallai dysgwyr fod eisiau eu hastudio ochr-yn-ochr â, cyn neu ar ôl cyflawni'r micro-gymhwyster sy'n cael ei gymeradwyo? A oes gan yr holl micro-gymwysterau hyn ofynion mynediad cyfatebol ac a ydynt yn cynnig gwasanaethau cymorth cyfatebol i alluogi pontio neu ddilyniant ar draws micro-gymwysterau?
- I ba raddau y mae dysgwyr wedi bod yn rhan o ddylunio neu addasu micro-gymwysterau?
- I ba raddau y bu allanoldeb wrth ddylunio neu addasu micro-gymwysterau?
- A yw dogfennaeth hyrwyddo'r cwrs yn nodi'n glir y wybodaeth a restrir yn [Adran 3.92](#).
- A yw'r gweithgareddau a'r ystyriaethau o fewn y broses ddylunio a chymeradwyo yn alinio â pholisïau ac arferion y darparwydd o ran cyfiawnder, cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant?

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparwydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Wrth ddylunio a chymeradwyo micro-gymwysterau, dylai darparwyr ystyried y gynulleidfa darged	Lle bo'n briodol, dylai dylunwyr micro-gymwysterau ystyried ble gall micro-gymwysterau arwain at astudiaeth bellach
Dylai darparwyr ystyried gofynion mynediad priodol a chyfleoedd ar gyfer Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol i annog cynhwysiant, gan hefyd gefnogi cyflawniad dysgwyr	Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn dymuno gosod terfynau ar nifer y deilliannau dysgu a'r tasgau asesu ar gyfer nifer penodol o gredydau i gynorthwyo â chymesuredd adnoddau ac ymdrech i ddysgwyr a staff
Os ydynt yn cymeradwyo unedau neu fodiwlau o ddyfarniadau mwy fel micro-gymwysterau, dylai darparwyr sicrhau eu bod yn addas fel dyfarniadau annibynnol ac ystyried mynediad dysgwyr at adnoddau a chymorth angenrheidiol	
Dylai darparwyr sicrhau bod dyfarniadau y gellir eu pentyrru wedi'u cynnwys yn eu rheoliadau a'u bod yn cydymffurfio â rheolau sy'n ymwneud â throsglwyddo credydau a chydabyddiaeth o ddysgu blaenorol	
Mae micro-gymwysterau yn destun proses gymeradwyo ffurfiol, wedi'i dogfennu'n glir	
Ystyrir allanolrwydd priodol fel rhan o'r broses gymeradwyo micro-gymwysterau, gan gynnwys cyfranogiad y cyflogwr a/ neu'r corff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol (PSRB)	
Dylai darparwyr yng Nghymru ystyried datblygu micro-gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	

3.8 Partneriaethau â sefydliadau eraill

Mae darparwyr a'u partneriaid yn cytuno ar drefniadau cymesur ar gyfer llywodraethiant effeithiol i sicrhau'r safonau academiaidd a gwella ansawdd y micro-gymwysterau a gyflwynir mewn partneriaeth.

Dylai datblygiad micro-gymwysterau fod yn seiliedig ar asesiadau perthnasol o anghenion y farchnad ac, mewn llawer o achosion, y ffordd orau o gyflawni'r gwaith datblygu hwn yw ar y cyd â darparwyr trydyddol, gan weithio mewn partneriaeth. Lle bo'n briodol, mae'n arfer da rhannu adnoddau ac osgoi creu nifer o ficro-gymwysterau tebyg yn ddiangen ar draws llawer o ddarparwyr. Gall hyn fod trwy bartneriaethau cydweithredol sy'n bodoli eisoes neu gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg trwy rwydweithiau cenedlaethol a/neu ranbarthol.

Efallai y byddai'n briodol i sawl darparydd gydweithio i gynnig ystod o ficro-gymwysterau o fewn maes penodol a dynodi dyfarniad capfaen addas fel canlyniad i bentyrru micro-gymwysterau. Gall cydweithio o'r fath fod o fudd i ddysgwyr trwy ehangu'r gronfa o ficro-gymwysterau sydd ar gael ac o bosibl rhoi dewisiadau o ran lleoliad neu ddull astudio. Er mwyn hwyluso cydweithio llwyddiannus, dylai pob darparydd sicrhau bod eu micro-gymwysterau yn bodloni'n llawn y rheolau a'r arferion allweddol a nodir yn y Fframwaith hwn.

Pan fydd corff/sefydliad dyfarnu yn cymeradwyo darparydd arall i gyflwyno eu micro-gymwysterau, dylid nodi'r trefniadau ar gyfer cyflwyno a goruchwyllo'r ddarpariaeth yn glir mewn dogfennaeth y cytunwyd arni. Argymhellir defnyddio [Adran 3](#) o'r Fframwaith hwn fel rhestr wirio i gynorthwyo ag ystyriaeth o agweddau perthnasol ar y bartneriaeth.

Er mwyn cynorthwyo ag uwchsgilio a datblygu gyrfa, bydd llawer o ficro-gymwysterau yn cael eu targedu at gyflogwyr a/neu weithwyr unigol neu ddarpar weithwyr. Dylai darparwyr ymwneud yn weithredol â diwydiant, cyflogwyr a/neu PSRB wrth ddylunio micro-gymwysterau newydd er mwyn sicrhau bod dyfarniadau newydd yn diwallu anghenion cyfredol ac yn alinio â safonau proffesiynol. Gall cydweithio effeithiol gynorthwyo dysgwyr i ymwneud â micro-gymwysterau, yn ogystal â hygyrdd y dyfarniadau o fewn y sector.

Argymhellir hefyd i ddarparwyr weithio gyda PSRB i godi ymwybyddiaeth o ficro-gymwysterau'r sector proffesiynol, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus ac addysg barhaus, ynghyd â hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol. Lle bo'n briodol, dylai darparwyr geisio cydnabyddiaeth neu achrediad PSRB ar gyfer micro-gymwysterau.

Gall rhai darparwyr ddefnyddio platfform cyflwyno allanol i gynnal micro-gymwysterau ar-lein. Dylai'r darparwyr hyn sicrhau bod y platfform allanol yn eu galluogi i gydymffurfio â'r rheolau a'r arferion allweddol a nodir yn y Fframwaith hwn; gweler hefyd [Adrannau 3.9](#) a [3.11](#).

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Mae datblygu micro-gymwysterau yn seiliedig ar asesiadau perthnasol o anghenion y farchnad ac, mewn llawer o achosion, y ffordd orau o gyflawni'r gwaith datblygu hwn yw ar y cyd â darparwyr trydyddol, gan weithio mewn partneriaeth	Lle bo'n briodol, mae darparwyr trydyddol yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu micro-gymwysterau er mwyn rhannu arfer ac osgoi dyblygu
Defnyddir Adran 3 o'r Fframwaith hwn fel rhestr wirio i gefnogi rheoli ansawdd partneriaethau micro-gredydau	Mae darparwyr yn gweithio gyda PSRB i godi ymwybyddiaeth o ficro-gymwysterau a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol
Lle bo'n briodol, mae darparwyr yn ceisio cydnabyddiaeth neu achrediad PSRB ar gyfer micro-gymwysterau	

3.9 Recriwtio, dethol a derbyn dysgwyr

Mae darparwyr yn gweithredu prosesau recriwtio, dethol a derbyn ar gyfer micro-gymwysterau sy'n dryloyw, yn deg ac yn gynhwysol i ddysgwyr. Yn unol â chanllawiau statudol a rheoleiddiol perthnasol, dylai darparwyr gynnal a chyhoeddi gwybodaeth gywir, berthnasol a hygyrch am eu darpariaeth, gan alluogi dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus am eu hastudiaethau a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

3.9.1 Recriwtio dysgwyr

Dylai staff sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn ar gyfer micro-gymwysterau gael eu hyfforddi'n briodol. Yn benodol, dylai staff ddeall a bod yn gyfarwydd ag unrhyw wahaniaethau rhwng prosesau recriwtio ar gyfer micro-gymwysterau a'r rhai ar gyfer rhaglenni mwy sylweddol y darparwyr.

Er mwyn cynorthwyo dysgwyr i ddewis micro-gymwysterau priodol, dylai darparwyr wneud yr holl ofynion mynediad perthnasol yn glir ac yn hygyrch (gweler hefyd [Adran 3.7.3](#)). Os yw micro-gymhwyster hefyd yn elfen o facro-gymhwyster, megis diploma neu radd, dylai darparwyr sicrhau bod unrhyw ofynion mynediad ar gyfer y macro-gymhwyster yn cael eu cyfleu'n glir. Mae hyn er mwyn sicrhau bod dysgwyr micro-gymhwyster nad ydynt yn bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer macro-gymhwyster yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau posibl o ran dilyniant o'r micro-gymhwyster.

Dylai darparwyr ystyried y cyfle ar gyfer cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol fel llwybr priodol ar gyfer derbyn unigolion i astudio micro-gymwysterau; gweler [Adran 3.7.3](#) a [3.10.2](#).

3.9.2 Tryloywder dyfarniadau

Wrth hyrwyddo a hysbysebu micro-gymwysterau, dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth glir, gywir a hygyrch ar gael i ddarpar ddysgwyr a rhai cyfredol. Ar gyfer dyfarniadau agored,^d dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ac yn hawdd ei defnyddio ar wefan y darparydd. Yn achos dyfarniadau caeedig, dylid darparu'r un wybodaeth i ddysgwyr a chyllidwyr/ cefnogwyr dyfarniadau cyn cyflwyno unrhyw ddysgu neu asesiad. Nid yw'r wybodaeth a nodir yma wedi'i bwriadu i ddyblygu na disodli canllawiau statudol na chanllawiau arfer da a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Dylai darparwyr gyhoeddi'r canlynol ar gyfer eu micro-gymwysterau:

- teitl y micro-gymhwyster
- gwerth credyd
- lefel
- deilliannau dysgu
- dysgwr targed - er enghraifft, a yw'r dyfarniad wedi'i fwriadu ar gyfer datblygiad proffesiynol, datblygu sgiliau, mynediad i ddyfarniad mwy neu uwch
- unrhyw gymwysterau neu gyflawniadau rhagofynnol
- hyd
- dull cyflwyno - ar-lein, wyneb-yn-wyneb neu gymysg, a lleoliad unrhyw gyflwyno wyneb-yn-wyneb, fel y bo'n briodol
- iaith y cyflwyniad, fel y bo'n briodol
- oriau o ddysgu dan gyfarwyddyd, gan gynnwys amser cyswllt â darlithydd/athro/ asesydd ac oriau tybiannol o ddysgu dan arweiniad y dysgwr
- dull(iau) asesu - er enghraifft, prawf, cyflwyno aseiniad neu bortffolio, cymhwysedd wedi'i arsylwi
- cost
- unrhyw gydnabyddiaethau, e.e. gan PSRB
- natur yr ardystiad, megis tystysgrif, trawsgrifiad, bathodyn digidol. Dylid darparu tystysgrif neu drawsgrifiad o leiaf.

^d Dyfarniad agored yw un y gellir derbyn unrhyw ddysgwr sy'n bodloni'r gofynion mynediad iddo. Dyfarniad caeedig yw un sydd ar gael i grŵp penodol o ddysgwyr yn unig, megis gweithwyr sefydliad sy'n noddi.

3.9.3 Cofrestru a statws ddysgwyr

Dylai darparwyr fod yn glir ynghylch statws dysgwyr micro-gymwysterau a'u mynediad at wasanaethau fel adnoddau llyfrgell a TG, cymorth i fyfyrwyr, aelodaeth o undeb/cymdeithas myfyrwyr. Mae statws dysgwyr yn debygol o fod yn seiliedig ar sawl ffactor fel y nodir yn [Adran 3.2.1](#).

Os cyflwynir micro-gymwysterau mewn partneriaeth, gan gynnwys trwy lwyfan cyflwyno allanol, dylai trefniadau y cytunwyd arnynt fod ar waith i gadarnhau a chyfleu statws y dysgwr a mynediad at wasanaethau (gweler [Adran 3.8](#)).

Wrth gofrestru ar gyfer micro-gymhwyster, dylai'r dysgwr, y darparydd, y staff ac undeb/cymdeithas y myfyrwyr, lle bo'n briodol, fod yn glir ynghylch statws y dysgwyr a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt, yn ogystal â'r rhai nad ydynt ar gael.

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Mae gan ddysgwyr fynediad at broses dderbyn o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol ohoni, gan gynnwys derbyniadau ar-lein	Mae darparwyr yn datblygu prosesau derbyn symlach ar gyfer micro-gymwysterau ac yn darparu hyfforddiant a chymorth priodol i staff perthnasol
Mae staff sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn ar gyfer micro-gymwysterau wedi'u hyfforddi'n briodol	Os yw micro-gymhwyster hefyd yn gydran o facro-gymhwyster, mae darparwyr yn sicrhau bod y gofynion mynediad ar gyfer y macro-gymhwyster yn cael eu mynegi'n glir i gyfleu cyfleoedd a/neu rwystrau ar gyfer dilyniant
Mae darparwyr yn gwneud yr holl ofynion mynediad ar gyfer micro-gymwysterau yn glir ac yn hygyrch	Mae dysgwyr micro-gymwysterau, y darparydd, staff ac undeb/cymdeithas y myfyrwyr, lle bo'n briodol, i gyd yn glir ynghylch statws y dysgwyr a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt, yn ogystal â'r rhai nad ydynt ar gael
Darperir gwybodaeth glir, gywir a hygyrch i ddarpar ddysgwyr micro-gymwysterau a'r rhai cyfredol	
Mae darparwyr yn cyfleu statws dysgwyr micro-gymwysterau yn glir a'u mynediad at wasanaethau fel adnoddau llyfrgell a TG, cymorth i fyfyrwyr, ac aelodaeth o undeb/cymdeithas y myfyrwyr	

3.10 Cynorthwyo dysgwyr micro-gymwysterau i gyflawni

Mae darparwyr micro-gymwysterau yn hwyluso fframwaith o gefnogaeth gymesur i ddysgwyr micro-gymwysterau sy'n eu galluogi i gael profiad dysgu o ansawdd uchel a chyflawni'r micro-gymwysterau a ddewiswyd ganddynt.

3.10.1 Cymorth i ddysgwyr micro-gymwysterau

O ystyried yr amrywiaeth eang o ddysgwyr micro-gymwysterau posibl (gweler [Adran 3.2](#)) a chyfnodau amrywiol o amser y gallent o bosib ymwneud â'r darparydd, dylid cynllunio a chyfleu cefnogaeth yn glir.

Yn wahanol i lawer o facro-gymwysterau mwy, mae'n debygol y bydd pwyntiau trosglwyddo allweddol ar gyfer dysgwyr micro-gymwysterau yn agos at ei gilydd o ran amser, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i gydnabod datblygiad dysgwyr a'r camau nesaf posibl yn eu teithiau dysgu gydol oes. Dylai darparwyr gynorthwyo â'r broses hon trwy sicrhau bod dysgwyr yn derbyn gwybodaeth, cyngor ac arweiniad priodol cyn dechrau unrhyw micro-gymwysterau. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion ynghylch micro-gymwysterau cyflenwol, cyfleoedd ar gyfer pentyrru, dyfarniadau capfaen hysbys, dilyniant posibl i facro-gymwysterau ac unrhyw gyfyngiadau hysbys i ddilyniant – ymdrinnir â hyn yn fanylach yn [Adran 3.7](#).

Dylai darparwyr micro-gymwysterau fabwysiadu dull teg a rhesymol o ran eu trefniadau ar gyfer cyngor ac arweiniad. Gall darparwyr gynnwys cyngorwyr gyrfaedd a/neu staff ymgysylltu â chyflogwyr/datblygu busnes wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad priodol. Ar gyfer micro-gymwysterau llai (fel rhai hyd at 20 credyd) a/neu'r rhai a gyflwynir mewn ychydig wythnosau'n unig neu gyfnod byrrach o amser, byddai'n gymesur casglu a rhannu gwybodaeth trwy ddulliau digidol gan gynnwys darparu ffeithiau allweddol a chwestiynau cyffredin, er enghraifft, ar wefan y darparydd.

Er mwyn cynorthwyo â theithiau dysgu gydol oes, dylai darparwyr ystyried cynnig micro-gymwysterau neu adnoddau wedi'u targedu sy'n datblygu sgiliau a gwybodaeth academiaidd a phroffesiynol dysgwyr. Mae'n well mynd ati i archwilio a datblygu micro-gymwysterau dysgu gydol oes o'r fath mewn partneriaeth er mwyn lleihau dyblygu ymdrech a chystadleuaeth ddiangen. Efallai y bydd darparwyr am ystyried ymagwedd partneriaeth genedlaethol at ddatblygu a chyflwyno micro-gymwysterau o'r fath, fel y rhai a ddatblygwyd ar gyfer yr [hyb Parod i Brifysgol](#) er enghraifft.^e

^e Mae hyb Parod i Brifysgolion yn cynnwys ystod eang o adnoddau i gynorthwyo myfyrwyr i wneud penderfyniadau a pharatoi ar gyfer addysg uwch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr [astudiaeth achos fer](#) hon.

3.10.2 Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol a throsglwyddo credydau

Yn ogystal â chydabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL) ar gyfer derbyn (gweler [Adran 3.9.1](#) uchod), dylai darparwyr ystyried y cyfle i ddysgwyr ddefnyddio RPL i gyflawni rhan o ficro-gymhwyster (ar gyfer un neu fwy o ddeilliannau dysgu er enghraifft), megis trwy gyflawni cwrs neu brofiad gwaith heb gredyd sydd â thystiolaeth ohono.^f Yn aml, gall cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol fod yn fwy priodol ar gyfer micro-gymwysterau mwy (20 credyd neu fwy) na dyfarniadau llai, a dylai darparwyr gofnodi canlyniadau trafodaethau ynghylch cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol i arwain cydweithwyr a dysgwyr.

Mae trosglwyddo credydau yn system sy'n caniatáu i gredyd a enillwyd ar raglen benodol gyfrannu at ofynion rhaglen wahanol. Mae hefyd yn caniatáu i gredyd a ddyfernir gan un corff/sefydliad dyfarnu gael ei gydnabod a'i gynnwys tuag at y gofynion ar gyfer rhaglen a gyflwynir a/neu a ddyfernir gan gorff/sefydliad dyfarnu arall. Yng nghyd-destun micro-gymwysterau, gall trosglwyddo credydau hwyluso cludadwyedd micro-gymwysterau a galluogi pentyrru micro-gymwysterau a gyflawnwyd gyda gwahanol ddarparwyr.

Er y dylai pob micro-gymhwyster fod yn ddyfarniad annibynnol, efallai y bydd rhai dysgwyr yn dymuno pentyrru micro-gymwysterau i ffurfio dyfarniadau mwy a defnyddio micro-gymwysterau i gael mynediad at facro-gymwysterau fel Tystysgrif neu Ddiploma Proffesiynol, Tystysgrif Addysg Uwch, neu gymhwyster israddedig neu ôl-raddedig.

Lle bo modd, dylai darparwyr wneud pob ymdrech i gydnabod credyd y mae dysgwyr wedi'i gyflawni trwy ficro-gymwysterau a chynorthwyo dysgwyr i adeiladu ar y credyd hwnnw lle bo'i angen. Mae gan y rhan fwyaf o gyrff/sefydliadau dyfarnu reolau ynghylch y credyd mwyaf a all gyfrif tuag at ddyfarniad a gyflawnwyd gyda chorff dyfarnu arall. Anogir darparwyr i adolygu eu rheoliadau academiaidd yng ngoleuni datblygiad micro-gymwysterau er mwyn galluogi cludadwyedd a symudedd dysgwyr. Mae cydnabyddiaeth y gallai rhai darparwyr, yn enwedig colegau, fod â chyfyngiadau o ran eu gallu i drosglwyddo credydau oherwydd rheoliadau cyrff/sefydliadau dyfarnu perthnasol.



^f Nodir bod llawer o gymwysterau sefydledig yn cynnwys cyfyngiadau ar faint o gredyd y gellir ei ddyfarnu trwy gydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol: mae hyn yn 50 y cant o'r cymhwyster (neu 30 credyd) ar gyfer y Diploma Mynediad i AU, er enghraifft.

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Mae cefnogaeth i ddysgwyr micro-gymwysterau wedi'i chynllunio a'i chyfleu'n glir	Lle bo'n briodol, mae gwybodaeth am gymorth i ddysgwyr a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd cyn cofrestru ar gael ac yn hygyrch, e.e. ar wefan y darparydd
Mae gan ddarparwyr ymagwedd deg a rhesymol at eu trefniadau ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd, a dylent sicrhau bod dysgwyr micro-gymwysterau yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd priodol cyn dechrau unrhyw ficro-gymhwyster	Er mwyn cefnogi teithiau dysgu gydol oes, mae darparwyr yn ystyried darparu micro-gymwysterau neu adnoddau wedi'u targedu sy'n datblygu sgiliau, yn ogystal â gwybodaeth academiaidd a phroffesiynol dysgwyr
Lle bo modd, mae darparwyr yn ymdrechu i gydnabod credyd y mae dysgwyr wedi'i gyflawni trwy ficro-gymwysterau ac yn cynorthwyo dysgwyr i adeiladu ar y credyd hwnnw lle bo'i angen	Lle bo'n briodol, mae darparwyr yn ystyried y cyfle i ddysgwyr ddefnyddio cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol i gyflawni rhan o ficro-gymhwyster

3.11 Addysgu, dysgu ac asesu

Mae darparwyr yn hwyluso dull cydweithredol a chynhwysol sy'n galluogi dysgwyr micro-gymwysterau i gael profiad dysgu o ansawdd uchel trwy eu hastudiaethau. Dylid cynorthwyo dysgwyr micro-gymwysterau i ddatblygu a dangos sgiliau a chymwyseddau academiaidd a phroffesiynol. Dylid defnyddio amrywiaeth o ddulliau i asesu micro-gymwysterau, gan ymgorffori gwerthoedd uniondeb academiaidd, er mwyn sicrhau canlyniadau y gellir eu cymharu ledled y DU.

3.11.1 Dull cyflwyno

Mae hyblygrwydd cyflwyno yn allweddol i hygyrchedd micro-gymwysterau i ystod eang o ddysgwyr a rhanddeiliaid. Dylai darparwyr ystyried y dull cyflwyno mwyaf priodol, yn seiliedig ar y gynulleidfa darged. Bydd rhai micro-gymwysterau yn gofyn am arddangos a/neu asesu sgiliau ymarferol y mae'n debyg y gellir darparu ar eu cyfer orau wyneb-yn-wyneb; gall hyn fod yn lleoliad neu gampws y darparydd, neu o bosibl ar safle cyflogaeth y dysgwr.

Bydd llawer o ficro-gymwysterau yn gwbl addas ar gyfer eu cyflwyno ar-lein, a dylai darparwyr ystyried addasrwydd unrhyw blatfform dysgu ar-lein ac amserlennu sesiynau cydamserol a/neu anghydamserol, ynghyd â'r amser mae'n ei gymryd i gwblhau micro-gymhwyster. Bydd lle hefyd ar gyfer cyflwyno cymysg, gan gyfuno dysgu ar-lein ac wyneb-yn-wyneb.

Gall modelau cymysg fod wyneb-yn-wyneb yn bennaf, gyda defnydd o adnoddau a fforymau ar-lein i gefnogi dysgwyr. Fel arall, gall modelau cymysg fod ar-lein yn bennaf, ynghyd â sesiynau wyneb-yn-wyneb i ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr neu gyflwyno ac ymarfer sgiliau ymarferol, er enghraifft.

Gall darparwyr ddewis defnyddio llwyfan mewnol i gynnal micro-gymwysterau ar-lein neu bartneru â chwmni allanol. Dylai darparwyr sy'n dewis defnyddio llwyfannau allanol sicrhau eu bod wedi ymgymryd â diwydrwydd dyladwy priodol cyn ymrwmo i bartneriaeth (gweler [Adran 3.8](#)) a bod yr arferion allweddol y manylir arnynt yn y Fframwaith hwn yn alinio â'u holl ficro-gymwysterau, waeth beth fo'r llwyfan a ddewisir.

Dylai'r dull cyflwyno a ddewisir fod yn seiliedig ar y gynulleidfa darged, amcanion y micro-gymhwyster, natur y deilliannau dysgu, y ffordd orau o alluogi dysgwyr i gyflawni'r canlyniadau a'r dull(iau) asesu. Lle dewisir darpariaeth ar-lein, dylai darparwyr ystyried manteision ac anfanteision posibl dysgu ar-lein, gan gynnwys tlodi digidol er enghraifft, er mwyn osgoi rhoi dysgwyr micro-gymwysterau dan anfantais.

Lle defnyddir amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) i gyflwyno micro-gymwysterau, neu i rannu adnoddau dysgu perthnasol, mae'n bwysig bod darparwyr yn sicrhau mynediad effeithiol i ddysgwyr micro-gymwysterau i'r VLE. Efallai y bydd hyn yn gofyn am addasu systemau VLE a TG presennol i sicrhau bod mynediad yn cael ei alluogi'n gyflym. Yn ogystal, dylai darparwyr sicrhau bod dysgwyr micro-gymwysterau sy'n ymwneud â'r darparwydd am gyfnod byr yn unig yn cael mynediad at yr adnoddau mewn modd amserol i hwyluso eu hastudiaethau; gweler hefyd [Adran 3.3](#).

Canfu [arolwg](#) a gynhaliwyd gan QAA Cymru yn 2025, bod cyflogwyr yn ffafrio cyfleoedd cymysg (cyfuniad o gyfleoedd ar-lein ac wyneb-yn-wyneb) ar gyfer datblygu'r gweithlu. Roedd cyflwyno ar-lein ychydig yn fwy poblogaidd na chyflwyno wyneb-yn-wyneb, naill ai yn lleoliad eu cwmni neu mewn coleg neu brifysgol.



3.11.2 Asesiad

Dylid rhoi gwybodaeth glir i ddysgwyr am y math(au) o asesiad cyn dechrau micro-gymhwyster. Dylai'r asesiad adlewyrchu lefel y micro-gymhwyster a sicrhau ei fod yn asesu'r deilliannau dysgu. Dylai asesiadau fod yn deg, yn ddibynadwy ac yn gynhwysol yn eu dyluniad, a dylent gymryd i ystyriaeth ystod amrywiol o'r mathau o ddysgwyr a'r rhai ag anableddau; gweler hefyd [Adrannau 3.2.1](#) a [3.7.6](#).

Dylai darparwyr adolygu eu polisiau ar gyfer asesu, uniondeb academiaidd, defnyddio deallusrwydd artiffisial ac apeliadau academiaidd i sicrhau bod y polisiau a'r gweithdrefnau ar lefel y darparydd yn briodol ar gyfer dyfarniadau micro-gymwysterau a dysgwyr; gweler hefyd [Adran 3.7](#). Lle mae angen gwneud addasiadau angenrheidiol, dylid dogfennu'r rhain yn glir a'u mynegi i staff a dysgwyr. Yn benodol, dylai darparwyr adolygu amserlenni ar gyfer gosod asesiadau ac amserlenni ar gyfer dychwelyd gwaith wedi'i asesu gydag adborth. Er y gall micro-gymhwyster fod â dim ond un dasg i'w hasesu, dylai dysgwyr dderbyn adborth ar eu gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cael cyfle i ddysgu o'r adborth hwnnw a chymhwyso'r dysgu angenrheidiol yn y cam nesaf o'u taith ddysgu.

Lle mae angen cadarnhad gan grŵp neu bwyllgor, megis bwrdd dyfarnu, ar gyfer cyflawni micro-gymwysterau, dylai darparwyr wneud trefniadau i'r rhain ddigwydd mewn modd amserol er mwyn lleihau oedi wrth gadarnhau dyfarniadau a chyhoeddi tystysgrifau i ddysgwyr. Gall fod yn briodol i fwrdd micro-gymwysterau penodol (neu gyfwerth) gyfarfod yn rheolaidd i ystyried micro-gymwysterau o bob rhan o'r darparydd mewn modd amserol. Lle ystyrir dyfarniadau micro-gymwysterau ar lefel sefydliadol, dylid gosod prosesau i sicrhau bod arfer da'n cael ei rannu a bod unrhyw broblemau'n cael eu bwydo'n ôl i'r adrannau perthnasol i'w hystyried a gweithredu arnynt, yn ôl yr angen.

Yn yr un modd, dylai'r defnydd o allanoldeb fod yn briodol ac yn gymesur. Lle nad yw darparydd yn ei gwneud yn ofynnol i arholwyr allanol neu gyfwerth roi sylwadau neu sicrwydd yn rheolaidd ar ficro-gymwysterau unigol, argymhellir bod y darparydd a/neu'r corff/sefydliad dyfarnu yn galluogi samplu o bryd i'w gilydd i sicrhau ansawdd uchel a chynnal safonau academiaidd; gweler hefyd [Adran 3.5](#).



3.11.3 Ardystio

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, dylid dangos tystiolaeth o gyflawni'r micro-gymhwyster trwy ardystiad ffurfiol.

Dylid darparu'r wybodaeth ganlynol i ddysgwyr ar ôl cwblhau micro-gymhwyster yn llwyddiannus.

Mae hyn fel arfer ar ffurf trawsgrifiad:

- enw'r dysgwr
- teitl y micro-gymhwyster
- enw'r corff/sefydliad dyfarnu a'r darparydd cyflwyno, lle bo'n berthnasol
- dyddiad cyhoeddi
- lefel a gwerth credyd
- deilliannau dysgu
- marc/gradd a gyflawnwyd
- dull cyflwyno
- unrhyw gydnabyddiaethau, e.e. gan PSRB

Yn ogystal â'r lefel isaf o wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer ardystio, bydd y canlynol yn cynorthwyo â chludadwyedd micro-gymwysterau a gallu dysgwyr i ddangos tystiolaeth o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni:

- oriau o ddysgu
- disgrifiad byr o'r cynnwys

Lle mae ardystiadau'n ddigidol, dylid diogelu hunaniaeth y dysgwyr, a dylai ardystiadau fod yn ddiogel rhag camddefnydd neu newidiadau er mwyn sicrhau ymddiriedaeth ymysg defnyddwyr. Dylai fod modd rhannu micro-gymwysterau digidol yn ddiogel ar draws sawl platfform gan gynnwys e-bost, rhwydweithiau proffesiynol a chyfryngau cymdeithasol.

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Mae darparwyr yn ystyried y dull cyflwyno mwyaf priodol, yn seiliedig ar y gynulleidfa a'r deilliannau dysgu arfaethedig.	Mae darparwyr sy'n dewis defnyddio platfform ar-lein allanol yn sicrhau bod yr arferion allweddol a nodir yn y Fframwaith hwn yn alinio â'u holl ficro-gymwysterau ar-lein.
Lle defnyddir amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) ar gyfer unrhyw agwedd ar gyflwyno micro-gymwysterau, mae darparwyr yn sicrhau mynediad effeithiol i ddysgwyr i'r VLE	Lle mae'n ddigidol, mae ardystiadau wedi'u diogelu, a gellir eu rhannu'n ddiogel ar draws llwyfannau priodol
Mae darparwyr yn adolygu eu polisiau sy'n ymwneud ag asesu i sicrhau eu bod yn briodol ac yn addas ar gyfer dyfarniadau micro-gymwysterau a dysgwyr	
Mae tystiolaeth o gyflawni micro-gymwysterau'n ar ffurf ardystiad ffurfiol	

3.12 Prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau

Mae darparwyr yn gweithredu prosesau ar gyfer cwynion ac apeliadau sy'n gadarn, yn deg, yn dryloyw ac yn hygyrch; ac maent wedi'u mynegi'n glir i staff a dysgwyr micro-gymwysterau.

Dylai darparwyr ystyried cyfrifoldebau statudol a chanllawiau a ddarperir gan y rheoleiddiwr perthnasol yn ogystal â'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a [Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol \(OIA\)](#) neu'r [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gogledd Iwerddon \(NIPSO\)](#), fel y bo'n briodol.

Dylai darparwyr adolygu polisiau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau sy'n bodoli eisoes i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer darpariaeth micro-gymwysterau. Yn benodol, dylai darparwyr adolygu'r amserlenni o fewn y polisiau hyn i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer darparu cyrsiau byr. Lle mae amserlenni o'r fath yn amhriodol neu'n anymarferol, dylid gwneud addasiadau i'r polisiau neu gytuno ar drefniadau pwrpasol ar gyfer y ddarpariaeth a nodwyd. Dylai unrhyw newidiadau sy'n deillio o hyn gydymffurfio ag egwyddorion tegwch, urddas a pharch, a dylent gael eu mynegi'n glir i staff a dysgwyr.

Dylid adolygu polisiau a phrosesau darparwyr ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau ar gyfer dysgwyr micro-gymwysterau yn rheolaidd a defnyddio'r canlyniadau i gynorthwyo â gwella darpariaeth micro-gymwysterau a phrofiad y dysgwr; gweler hefyd [Adran 3.5](#).

Dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth am brosesau cwynion ac apeliadau ar gael i ddysgwyr micro-gymwysterau; mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses dderbyn yn ogystal â chyflwyno, asesu a dyfarnu micro-gymwysterau.

Argymhellir ar gyfer pob dysgwr / darparydd micro-gymwysterau	Awgrymir ar gyfer dysgwyr / darparwyr micro-gymwysterau lle bo'n ymarferol
Mae darparwyr yn adolygu prosesau ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau sy'n bodoli eisoes i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer darparu micro-gymwysterau	
Mae polisïau a phrosesau darparwyr ar gyfer pryderon, cwynion ac apeliadau dysgwyr micro-gymwysterau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i hwyluso gwella darpariaeth micro-gymwysterau a phrofiad y dysgwr	
Mae gwybodaeth am brosesau cwynion ac apeliadau ar gael i ddysgwyr micro-gymwysterau	

4. Ymgysylltiad â chyflogwyr a micro-gymwysterau ar gyfer datblygu'r gweithlu

'Mae [Strategaeth Ddiwydiannol Fodern y DU](#) yn datgan, mewn 'ymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid, fod busnesau wedi dweud wrthym [Llywodraeth y DU] nad yw'r system sgiliau yn diwallu eu hanghenion; nid oes digon o'r hyblygrwydd sydd ei angen arnynt i adeiladu gweithlu modern, sy'n meddu ar y sgiliau cywir – gan gynnwys sgiliau deallusrwydd artiffisial, digidol, rheoli a data, gan rwystro mabwysiadu technoleg a'r manteision o ran cynhyrchiant a all ddod yn sgil hynny.'

Mae ymchwil gan Siambr Fasnach Prydain (BCC) yn dangos bod 62% o gyflogwyr yn profi prinder sgiliau.³ Yn [Growth through People Taking on The NEET Challenge: Creating Job Opportunities for Gen Z](#) mae BCC yn argymhell bod angen mwy o hyblygrwydd ar gyflogwyr i fuddsoddi mewn uwchsgilio modiwlaid, yn ogystal â hyfforddiant nad yw'n brentisiaeth, a chyn y bydd unigolyn yn ymgymryd â phrentisiaeth.

Mae gan ficro-gymwysterau'r potensial i fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau a nodwyd, yn ogystal â darparu uwchsgilio a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) hanfodol i lawer o fusnesau'r DU. Serch hynny, mae ymwybyddiaeth cyflogwyr o ficro-gymwysterau yn gymharol isel. [Mewn arolwg a gynhaliwyd gan QAA Cymru yn 2025](#), dim ond 44% o'r cyflogwyr a ymatebodd oedd yn ymwybodol o ficro-gymwysterau.

Mae cost datblygu staff a DPP hefyd yn chwarae ffactor pwysig yn natblygiad y gweithlu. Yn eu harolwg yn 2025, canfu QAA Cymru, er bod mwyafrif y cyflogwyr (68%) yn cytuno y byddai eu busnes/sefydliad yn fodlon ariannu gweithwyr i ymgymryd â micro-gymwysterau sy'n diwallu anghenion eu busnes, nododd un rhan o bump o'r cyflogwyr a ymatebodd y byddent ond yn talu am ddatblygiad gweithwyr pe bai cymorthdal ar gael. Mae angen i ddarparwyr addysg drydyddol a busnesau fod yn agored ynglŷn â manteision a chostau datblygu a chyflwyno micro-gymwysterau.

O ystyried bod angen i fusnesau sicrhau bod gweithwyr yn gymwys, yn ymgysylltiedig ac yn gynhyrchiol, gall micro-gymwysterau ddarparu dull hyblyg wedi'i dargedu ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu â'r union sgiliau sydd eu hangen. Gellir eu defnyddio i hybu ymgysylltiad gweithwyr a chynorthwyo â'u datblygiad. Fodd bynnag, gall fod datgysylltiad rhwng busnesau a sefydliadau academiaidd o ran sicrhau bod cyrsiau a chymwysterau yn diwallu anghenion busnesau ac yn cydymffurfio â'r ansawdd uchel a'r safonau angenrheidiol ar gyfer addysg bellach ac uwch yn y DU. Mae micro-gymwysterau yn cynnig cyfle, trwy gydweithio agos rhwng cwmnïau, mawr a bach, a cholegau a phrifysgolion lleol, a all ddarparu cymwysterau wedi'u teilwra ar gyfer gweithlu'r DU sy'n cyflawni'n union yr hyn sydd ei angen ar economi'r DU.

Anogir colegau a phrifysgolion i drafod anghenion DPP â chyflogwyr lleol i ysgogi datblygu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion busnes. Mae QAA Cymru wedi cynhyrchu [taflen ffeithiau micro-gymwysterau ar gyfer cyflogwyr](#) i ategu'r trafodaethau hyn. Fel y nodir yn [Adrannau 3.5, 3.7, 3.8 a 3.10](#), dylai fod cyfathrebu parhaus â chyflogwyr o ran dylunio, cyflwyno ac adolygu micro-gymwysterau.

5. Gwireddu potensial micro-gymwysterau

Mae micro-gymwysterau yn cynnig y cyfle i ddarparu dull newydd o ddysgu. Gall y syniad o gwrs byr fod yn ddeniadol ac yn hygyrch i unigolion a allai fel arall beidio â chymryd rhan mewn addysg ffurfiol, neu fod wedi datgysylltu ohoni. Gall natur gryno ond penodol micro-gymwysterau alluogi dysgwyr i ddatblygu meysydd newydd o wybodaeth a sgiliau. Mae yna botensial i ddysgwyr gyfuno'r micro-gymwysterau hyn, trwy eu pentyrru, i greu macro-gymwysterau er mwyn ennill cymwysterau sylweddol fel diploma neu radd, yn seiliedig ar ansawdd a safonau priodol.

Mae micro-gymwysterau yn gyfle gwych i ehangu mynediad at addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall eu maint a'u hyblygrwydd gynorthwyo dysgwyr i ymwneud ag astudiaethau cyfrwng Cymraeg mewn ffyrdd penodol a chyraeddadwy, gan gynnwys mewn meysydd pwnc lle mae'r ddarpariaeth wedi bod yn gyfyngedig yn y gorffennol.

Nid yw cyflogwyr hyd yma wedi manteisio'n llawn ar micro-gymwysterau wrth uwchsgilio a datblygu'r gweithlu. Gall trafodaeth a chydweithio pwrpasol gyda chyflogwyr arwain at raglenni dysgu arloesol a chydabyddiaeth o gyflawniadau i ddiwallu anghenion cyflogwyr, gweithwyr a'r economi yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

Bwriedir i'r Fframwaith hwn fod yn fan cychwyn ar gyfer dylunio a datblygu micro-gymwysterau er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n dda ac yn addas at y diben. Anogir darparwyr addysg drydyddol i ystyried y Fframwaith hwn fel teclyn hanfodol ar gyfer rheoli ansawdd parhaus, er mwyn sicrhau bod micro-gymwysterau ledled Cymru a Gogledd Iwerddon yn darparu profiad dysgu o ansawdd uchel ac yn hwyluso symudedd dysgwyr.

¹ Estyn (2024) Sut rydym yn arolygu (y broses arolygu): Addysg Bellach

² Yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (2024) Grymuso Gwelliant: Fframwaith Newydd ar gyfer Arolygu, Adran yr Economi, Gogledd Iwerddon

³ Arolwg Gweithlu BCC, 2024 <https://www.britishchambers.org.uk/wp-content/uploads/2024/09/Workplace-Equity-CommissionSeptember-2024.pdf>

6. Rhestr termau

Tymor	Diffiniad
Achrediad	Proses ar gyfer cymeradwyo rhaglen gan sefydliad allanol awdurdodedig. Gallai sefydliad o'r fath fod yn brifysgol, corff proffesiynol neu gorff rheoleiddio.
Dyfarniad	Cymhwyster, neu gredyd academiaidd, a ddyfernir i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r deilliannau dysgu a fwriadwyd ac wedi bod yn llwyddiannus yn yr asesiadau sy'n ofynnol i fodloni'r safonau academiaidd a osodwyd ar gyfer rhaglen neu uned astudio.
Corff dyfarnu/ sefydliad dyfarnu	Unrhyw sefydliad sydd wedi'i awdurdodi i ddyfarnu cymhwyster penodol. Er enghraifft, mae prifysgolion yn gyrff sydd ag awdurdod i ddyfarnu graddau
Dysgu cyfunol	Dysgu a gyflwynir trwy sawl dull gwahanol, gan gynnwys fel arfer wyneb-yn-wyneb ac e-ddysgu (a elwir hefyd yn 'ddysgu wedi'i wella gan dechnoleg' neu 'ddysgu wedi'i alluogi')
Dyfarniad capfaen	Mae'r term hwn yn disgrifio dyfarniad pwrpasol a ddatblygwyd gan gorff/sefydliad dyfarnu awdurdodedig i gydnabod set o ficro-gymwysterau a gyflawnwyd fel micro-gymwysterau mwy neu fel macro-gymwysterau. Am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag AU, gweler y Datganiad Nodweddion Micro-gymwysterau
Ardystiad	Ardystiad yw darparu dogfen neu dystiolaeth arall o gyflawniad, megis pasio arholiad a/neu gwblhau rhaglen astudio. Yng nghyd-destun micro-gymwysterau, gall hyn fod yn dystysgrif bapur neu ddigidol neu'n gofnod o gyflawniad.
Datganiadau Nodweddion	Mae Datganiadau Nodweddion, a gyhoeddir gan QAA, yn disgrifio nodweddion penodol cymwysterau. Maent yn disgrifio pwrpas, nodweddion cyffredinol a deilliannau generig cymwysterau, ond nid ydynt yn cynnwys manylion ar lefel pwnc. Dim ond ar gyfer cymwysterau addysg uwch ar Lefelau 4 i 8 y mae Datganiadau Nodweddion ar gael fel y disgrifir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU.
Addysg Barhaus	Darpariaeth i ddatblygu/gwella cyflogadwyedd neu sgiliau proffesiynol penodol lle nad yw dysgwyr yn cael eu cyflogi (yn wahanol i DPP).
Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)	Darpariaeth i ddatblygu/gwella cyflogadwyedd neu sgiliau proffesiynol penodol lle mae dysgwyr yn cael eu cyflogi (gweler hefyd Addysg barhaus).

Tymor	Diffiniad
Credyd	Dull o fesur a chydabod dysgu pryd bynnag a ble bynnag y caiff ei gyflawni, a ddyfernir i gydnabod cyflawniad deilliannau dysgu ar lefel benodol ac a ddefnyddir at ddibenion ardystio. Mae un credyd fel arfer yn cynrychioli 10 awr dybiannol o ddysgu
Trosglwyddo Credydau	Trosglwyddo credydau yw trosglwyddo credydau o un cymhwyster/ rhaglen ddysgu i un arall er mwyn lleihau dyblygu dysgu. Mewn llawer o achosion gall hyn hefyd olygu trosglwyddo credyd rhwng darparwyr
Bathodyn Digidol	Mae bathodyn digidol yn gynrychiolaeth weledol o gyflawniad neu sgil y gellir ei arddangos, ei gyrchu a'i wirio ar-lein. Ystyrir bathodynau digidol yn gymwysterau cludadwy gyda data sy'n disgrifio cyflawniad neu sgil unigolyn wedi'i fewnosod yn nelwedd y bathodyn. Gall deiliaid fewnosod eu bathodyn ar wefan bersonol neu broffil proffesiynol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd, er enghraifft
Dysgwr	Dysgwr yw person sy'n ceisio ennill gwybodaeth neu sgil mewn rhywbeth trwy astudio, ymarfer neu gael ei addysgu. Mae myfyriwr yn fath o ddysgwr – gweler isod. O fewn y Fframwaith hwn, defnyddir dysgwr yn hytrach na myfyriwr i gydnabod yr hawliau gwahanol posibl sydd gan ddysgwyr micro-gymwysterau o'u cymharu â myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gymwysterau mwy sylweddol neu facro-gymwysterau.
Deilliannau Dysgu	Deilliannau dysgu yw'r hyn y disgwylir i ddysgwr neu fyfyrwr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu ac asesu.
Lefel	Mae lefelau yn nodi anhawster neu gymhlethdod cymhwyster neu raglen ddysgu. Mae disgrifwyr lefel yn disgrifio'n fras yr hyn y dylai dysgwyr allu ei wneud neu ei ddangos ar bob lefel trwy ddiffinio'r canlyniadau generig ar gyfer y nodweddion ar bob lefel.
Macro-gymwysterau	Mae macro-gymwysterau fel arfer yn cyfeirio at gymwysterau ffurfiol ehangach sy'n cynnwys Diplomâu Lefel 2 a Lefel 3, tystysgrifau cenedlaethol uwch, graddau a thystysgrifau ôl-raddedig er enghraifft.
Micro-gymwysterau	Mae micro-gymwysterau yn gymwysterau bach sy'n dwyn credyd, ac sy'n seiliedig ar ddeilliannau. Er mwyn ennill micro-gymhwyster, caiff dysgwyr eu hasesu i ddangos eu bod wedi cyflawni'r deilliannau dysgu. Er eu bod wedi'u cynllunio fel cymwysterau annibynnol, gellir cyfuno (neu bentyrru) micro-gymwysterau i ffurfio cymwysterau mwy neu ddarparu mynediad i ddyfarniad mwy.

Tymor	Diffiniad
Cludadwyedd	Cludadwyedd yw gallu dysgwr i gario neu ddefnyddio micro-gymhwyster a gyflawnwyd neu a ddyfarnwyd gan un sefydliad neu gorff dyfarnu a gallu adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r micro-gymhwyster hwnnw gyda sefydliad/corff dyfarnu arall. Gall y dysgu pellach fod ar yr un lefel neu gall fod ar lefel uwch (gweler Pentyrru).
Darparydd	Defnyddir y term 'darparydd' trwy gydol y Fframwaith hwn i gynrychioli unrhyw ddarparydd micro-gymwysterau – mae hyn yn cynnwys cyrff a sefydliadau dyfarnu micro-gymwysterau, yn ogystal â cholegau, prifysgolion neu sefydliadau eraill sy'n darparu micro-gymwysterau.
Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol (PSRB)	Mae PSRB yn sefydliadau sy'n gosod y safonau ar gyfer proffesiynau penodol, ac yn rheoleiddio mynediad iddynt. Maent wedi'u hawdurdodi i achredu, cymeradwyo neu gydnabod rhaglenni penodol sy'n arwain at y cymwysterau proffesiynol perthnasol – y gall fod ganddynt gyfrifoldeb statudol neu reoleiddiol drostynt.
Cymhwyster	Dyfarniad academaidd a gydnabyddir yn ffurfiol, fel tystysgrif diploma neu radd, a ddyfernir ar ôl cwblhau rhaglen astudio yn llwyddiannus.
Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol	Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL) yw'r broses ar gyfer cydnabod dysgu sydd wedi dod o brofiad a/neu gyd-destunau dysgu ffurfiol neu anffurfiol blaenorol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a sgiliau a enillwyd y tu allan i'r ysgol, coleg neu brifysgol a thu allan i sefyllfaoedd dysgu ffurfiol megis trwy brofiadau bywyd a gwaith. Mae rhai sefydliadau'n defnyddio termau eraill ar gyfer RPL gan gynnwys APL (achrediad o ddysgu blaenorol), APEL (achrediad o ddysgu blaenorol trwy brofiad), ac APCL (achrediad o ddysgu blaenorol â thystysgrif)
Cwrs Byr	Cwrs byr yw rhaglen neu gwrs astudiaeth a gyflwynir dros gyfnod byr o amser; gall hyn fod yn llai nag un flwyddyn neu gyn lleied ag un diwrnod, er enghraifft. Gall cyrsiau byr ddwyn credydau neu beidio.
Cylched Byr	Disgrifydd cymhwyster cyffredinol sy'n ffurfio un o'r Disgrifwyr Dulyn ehangach. Mae'r disgrifwyr hyn wedi'u hamlinellu yn y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Ardal Addysg Uwch Ewrop (QF-EHEA) a gytunwyd yn 2018. Mae cymwysterau cylchred byr yn ddyfarniadau addysg uwch nad ydynt yn bodloni'r gofynion llawn ar gyfer gradd. Cyfeiriwyd at y cymwysterau hyn hefyd, o fewn y DU, fel cymwysterau is na lefel gradd.

Tymor	Diffiniad
Pentyrru	Gellir cyfeirio at ficro-gymwysterau y gellir eu pentyrru fel blociau adeiladu, lle mae gan bob micro-gymhwyster y mae dysgwr yn eu hennill y potensial i adeiladu i fod yn gymwysterau mwy. Mae pentyrru micro-gymwysterau yn ffordd o alluogi dysgwyr i gyflawni deilliannau dysgu macro-gymwysterau trwy gyflawni nifer o ficro-gymwysterau.
Strwythur	Defnyddir y term 'strwythur' yn y Fframwaith hwn i ddisgrifio trefniant darparydd ar gyfer goruchwyllo neu lywodraethu agwedd ar ei ddarpariaeth. Gall hwn fod yn fwrdd, pwyllgor neu fforwm arall, yn dibynnu ar y darparydd
Myfyriwr	Myfyriwr yw math o ddysgwr sy'n ymrestru neu'n cofrestru ar gyfer rhaglen astudio gyda darparydd addysg. Fel arfer, mae myfyrwyr yn dilyn cyfres o nodau pwnc-benodol y gellir eu dewis, eu hasesu a'u monitro gan addysgwyr. Fel arfer, mae gan fyfyrwyr fynediad at ystod o wasanaethau cymorth a gynnigir gan y darparydd addysg.
Trawsgrifiad	Dogfen ffurfiol a elwir hefyd yn ddatganiad o ddysgu, sef cofnod o gyflawniad neu rywbeth tebyg, sy'n ardystio'r canlyniadau (marciau neu raddau) a gyflawnwyd ar ôl cwblhau rhaglen neu gwrs yn llwyddiannus.
Sector Trydyddol	Mae'r sector trydyddol yn derm cynhwysol ar gyfer pob darparydd addysg sy'n cyflwyno addysg ôl-16 a gydnabyddir yn ffurfiol. O fewn y Fframwaith hwn, mae darparwyr trydyddol yn cynnwys colegau, prifysgolion a darparwyr addysg neu hyfforddiant eraill sy'n cyflwyno dyfarniadau cydnabyddedig. Mae hyn yn cynnwys dyfarniadau a gydnabyddir gan y Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) yng Ngogledd Iwerddon, Cymwysterau Cymru, Ofqual , y Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF) a dyfarniadau darparwyr sydd â phwerau dyfarnu graddau
Uwchsgilio	Dysgu sgiliau newydd, yn enwedig mewn perthynas â chyflogaeth bresennol neu arfaethedig. Yn aml, mae cyflogwyr yn hwyluso uwchsgilio trwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i wella galluoedd y gweithlu a lleihau bylchau sgiliau.

7. Acronymau/talfyriadau

Acronym	Enw llawn
BCC	Siambr Fasnach Prydain
CMA	Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd
CPD	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
CQFW	Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru
FAQs	Cwestiynau Cyffredin
AB	Addysg Bellach
FHEQ	Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
AU	Addysg Uwch
IAG	Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau
NIPSO	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon
OIA	Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol
RPL	Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol
RQF	Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig
VLE	Amgylchedd Dysgu Rhithwir

8. Dolenni i adnoddau defnyddiol

[Bloom's Taxonomy](#)

[Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\)](#)

[Micro-gymwysterau: Manteision i fusnesau a gweithwyr](#) – taflen ffeithiau ynghylch micro-gymwysterau ar gyfer cyflogwyr i golegau a phrifysgolion ei rhannu gyda'r cyflogwyr hynny sy'n bartneriaid iddynt

[Micro-gymwysterau – y wybodaeth hanfodol a Chwestiynau Cyffredin](#)

[Datganiad Nodweddion QAA ar gyfer Micro-gymwysterau](#)

[Gall Cymwysterau Groesi Ffiniau - Canllaw i Gymharu Cymwysterau yn y DU ac Iwerddon](#)

[Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol: Fframwaith ar gyfer yr Alban](#)

[Fframwaith Cymwysterau Rheoleiddiedig \(RQF\)](#)

[Y Fframweithiau ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau'r DU](#)

9. Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl aelodau 2025-26 y Rhwydwaith Addysg Drydyddol ar gyfer Micro-gymwysterau a chydweithwyr a gefnogodd ddatblygiad y Fframwaith hwn, ac yn enwedig y rhai a gymerodd ran weithredol wrth ysgrifennu ac adolygu'r cynnwys, fel y nodir yma.

Alan Serplus — Coleg Metropolitan Belfast

Kelly Fisher — Prifysgol Bangor

Lois McGrath — Prifysgol Bangor

Andrew Bond — Coleg Pen-y-bont

Laura Dodds — Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Samantha Morton — Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Steve Osborne — Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Cadeirydd MIC.SIG

Gaby Tobin — Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Andrew White — Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Dewi Parry — Prifysgol Caerdydd

Shona Smith — Prifysgol Caerdydd

Emma Hurst — Coleg Cambria

Michelle Cooper — Coleg Gwent

Laura Smith — Coleg Amaeth, Bwyd a Menter Wledig

Jeff Protheroe — Colegau Cymru

Jon Buglass — Coleg Caeredin

Gethin Jones — Grŵp Llandrillo Menai

Joanne Owen — Grŵp Llandrillo Menai

Leanne Howe — Coleg Gŵyr Abertawe

Ryan Jarvis — Coleg Gŵyr Abertawe

Anne Tierney — Prifysgol Heriot-Watt

Angela Davies — Prifysgol Manceinion

Sian Yeowell — Prifysgol Manceinion

Aaron Ballantyne — Northern Regional College

Christine Brown — Northern Regional College

Grainne Logue — Northern Regional College

Jeanette Adams — Grŵp Colegau NPTC

Richard Buckley — Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

Ann Cotterill – Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Lucy Richards – Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Helena Vine – Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Karen Gruhn – Prifysgol Queen's Belfast
Phil Hanna – Prifysgol Queen's Belfast
Michelle Spence – Prifysgol Queen's Belfast
James Currie – South Eastern Regional College
Stuart Rankin – South Eastern Regional College
Gary Ritchie – South Eastern Regional College
Julie Kelly – South West College
Nicola Quinn – South West College
Elaine Nesbitt – Southern Regional College
Libby Shackels – Southern Regional College
Casey Hopkins – Prifysgol Abertawe
Louisa Huxtable-Thomas – Prifysgol Abertawe
Laura Roberts – Prifysgol Abertawe
Abbie McKenna – Prifysgol Ulster
Ursula McTaggart – Prifysgol Ulster
Alice Eustace – Union Theological College
Nicola Welton – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Rhwydwaith Dysgu a Addysgu - Prifysgolion Cymru
Sarosh Azhar – Prifysgol De Cymru
Katie Davies – Prifysgol Wreccsam

Gyda chefnogaeth ledled Cymru a Gogledd Iwerddon

NORTHERN
Regional College



Prifysgol Wrexham
Wrexham University



Ariennir gan

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Cyd-gynhyrchwyd y Fframwaith, a ariannwyd gan Medr, gan grwp diddordeb arbennig oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r darparwyr trydyddol rheoleiddiedig yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ac mae wedi'i lywio gan bolisi ac arfer micro-gymwysterau ar draws y DU ac yn rhwngwladol.

Cyhoeddwyd - Medi 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786

Ffôn: 01452 557000
Gwe: www.qaa.ac.uk